



Tudalen 6

YSGOL GYMUNED



Tudalen 8

DYLAN LEWIS



Tudalen 18

APÊL MOTOR NIWRON




Tudalen 22

PLANT NEWYDD

ECO'r Wyddfa

Rhif: 414
Hydref 2013
Pris: 50c



Y Daith: Ras y "Tour of Britain".

Degfed penblwydd y ras a'r pedwerydd cymal yn gorffen ym mro'r "Eco" am y tro cyntaf. Ac am ddiweddglo! Cannoedd, os nad miloedd o bobl yn rhesi ar ddwy ochr y ffordd osgoi yn Llanberis. Sylwebaeth yn Gymraeg gan Stephen Edwards, yr hogyn lleol. Y croeso cynnes traddodiadol i un arall o'r digwyddiadau athletaidd sy'n cael eu cynnal ym mhrifddinas chwaraeon antur Cymru. A diwrnod llwyddiannus i holl fusnesau'r pentref.

Heb anghofio'r cant a saith o feicwyr a oedd yn gyfrifol am y ffasiwn achlysur. Ac wedi tri diwrnod o wyntoedd hyrddiol, stormydd gaeafol a glaw di-baid, roedd dyffryn Peris wedi gallu trefnu tywydd oedd yn ffafrio'r beicwyr a'r cefnogwyr: ffyrdd sych, diogel i rasio, a heulwen groesawgar ar lan Llyn Padarn. Ydi, mae'r ardal yn gwybod yn iawn sut i drefnu digwyddiad gwerth chweil!

ECO'r Wyddfa

RHIF 414
Hydref 2013
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi i law	Plygu	Ble
Tachwedd	Hydref 20	Hydref 31	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 17	Tachwedd 28	Caeathro
Nadolig	Rhagfyr 8	Rhagfyr 19	Ysgol Brynrefail

LLYTHYRAU

53 Heol Wingfield, Eglwysnewydd,
Caerdydd CF14 1NJ
hywel.gwynfryn@bbc.co.uk

Gwybodaeth am David Lloyd

'Nid oedd i'w gael yng ngwlad y Sais Ail Dafydd Lloyd a'i felys lais'

Fel yna y canodd y Prifardd Tilsli i'r tenor enwog, David Lloyd. Ac meddai Rhys Meirion amdano,

'Cyffyrddodd yng nghalonau ei gynulleidfa am ei fod yn canu o'r galon, a'r galon honno, ar brydiau, bron â thorri.'

Profodd 'wae a gwynfyd, nef ac uffern bob yn ail', a'm gobaith yw y bydd y cofiant iddo yn adrodd hanes y dyn, yn ogystal â hanes y tenor.

Os oes ganddochi chi unrhyw wybodaeth o gwbwl am David Lloyd, neu os gwyddoch chi am rywun sydd wedi casglu gwybodaeth amdano – byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Gallwch gysylltu â mi drwy lythyr neu e-bost.

Hywel Gwynfryn

Y Gadlas, 14 Lys Gwyn
Caernarfon LL55 1EN

Annwyl ddarlennwyr,

I bwrpas ymchwil, tybed a oes gan rai o ddarlennwyr Eco'r Wyddfa wybodaeth am ddigwyddiadau neu draddodiadau am y Parchg John Williams, Brynsiencyn, yn recriwtio yn y fro yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf? Gwn iddo dalu sawl ymweliad â'r cylch ond anaml, a llwm o ran cynnwys, ydi'r cyfeiriadau yn y papurau newydd. Gwn iddo, yn ôl yr Herald Cymraeg, fod yn y 'Dance Hall' yn Llanberis ar y trydydd o Fedi 1914 a'r 'neuadd yn orlawn'. Pe byddai hanes ar gael am ddigwyddiad arbennig byddwn y falch o glywed amdano.

Yn gywir,

Harri Parri (gadlas14@btinternet.com)

Utgorn Cymru ar ei newydd wedd!

Annwyl Ddarllenwyr,

Ydy, mae'r cylchgrawn llafar Cymraeg 'Utgorn Cymru' yn ei ôl! Yn dilyn seibiant anorfod wedi 73 o rifynnau misol di-dor, ymddangosodd rhifyn 74 o'r cylchgrawn poblogaidd yn Eisteddfod Dinbych. O hyn allan fe'i cynhyrchir yn chwarterol, felly cewch bedwar rhifyn y flwyddyn am danysgrifiad o £18 yn unig, gan gynnwys ei anfon trwy'r post. (Mae hefyd ar gael trwy mp3). Bargen yn wir!

Cynnwys yr Utgorn yw tua 80 munud o sgrysiâu byrion diddorol ar bynciau Cymreig o bob math, gan siaradwyr huaudl a ffræth.

'Adloniant o safon', 'Anhepgor ar deithiau car', 'hwyl a dysg yn un': dyna farn gwrandawyr presennol. Pam na wnewch chi danysgrifio i'r Utgorn? Cewch oriau o wrando difyr, a hefyd y boddhad o gefnogi achos da: mae'r elw o'r gwerthiant yn mynd at gynhyrchu copïau am ddim ar gyfer Cymry Cymraeg sydd â nam ar eu golwg, ac at gynnal gweithgareddau Canolfan Hanes Uwchgwyrfai - sefydliad unigryw uniaith Gymraeg, di-grant.

Am ragor o fanylion neu gopi enghreifftiol o Utgorn Cymru mae croeso i chi gysylltwch â ni trwy ffonio 01286 660 853/655/546 neu e-bostio canolfanuwcgwyrfai@gmail.com

Gobeithiwn glywed gennych yn fuan,

Yn gywir,

Jina Gwyrfai

Ar ran Marian Elias Roberts a Jina Gwyrfai (Gwirfoddolwyr)

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai ar nos Fawrth, 15ed Hydref, yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Bydd Dr Jason Walford Davies, uwch ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor, yn traddodi darlith 'R.S. Thomas a Peter Hope Jones: Delweddu Enlli'. Croeso cynnes i bawb.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copïau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50

- gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£30: Er cof am Mrs Betty Griffiths, Gorffwysfa, Waunfawr.

£20: Er cof am Mair Roberts gan deulu'r Glasgoed; Er cof am Eifion Jones, Glan-y-Don, Cwm-y-Glo; Teulu'r diweddar Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis.

£10: Nani Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun; Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Urien a Rhian Deiniol, Caerdydd. Margaret Roberts, Crud yr Awel, Porth gogledd, Deiniolen; Euron Evans, Min y Don, Brynrefail; Malcolm Pitts a'r teulu, Y Gelli, Llanrug; Gwyn ac Emma, Cymnant, Waunfawr; Er cof am Iwan Williams, Deiniolen gynt; Mattie Hughes, Glyder, 8 Ffordd Capel Coch, Llanberis; Dafydd a Lilian Roberts, 27 Stad Glanffynnon, Llanrug.

£5: Kelvin a Rhian Jones, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun; Mona Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis.

Cyfarfod Blynyddol "Eco'r Wyddfa"

Bydd cyfarfod blynyddol yr "Eco" yn cael ei gynnal yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Iau, 10fed o Hydref am 7.00 Rhaglen.

1. Derbyn adroddiadau'r swyddogion.
2. Derbyn adroddiad ariannol.
3. Ethol swyddogion.
4. Ystyried pris y papur o fis Ebrill 2014, ac ystyried hefyd gynnwys mwy o dudalennau lliw.
5. Addasu trefniadau gweinyddol.
6. Ystyried datblygiadau digidol i'r dyfodol.

Gwneir apel ar i ohebwyr a dosbarthwyr y gwahanol bentrefi fod yn bresennol, ac estynnir croeso cynnes i unrhyw un arall sydd a diddordeb mewn cynnal eich papur bro.

Yng nghefn gwlad ein cyn-dadau
yn gul fel gwythiennau'n gwau
cam wrth gam cafwyd gwerth
o hen draffyrdd ddi-drafferth.
Nos Sul cyn i'n noswyllo
yn yr haf, braf crwydro bro.
Caed balm o'r daith ddi-balmant
a'r plwyf ar agor i'r plant.
Hyd y ffridd caed siarad ffraeth,
yn agos daeth cymdogaeth;
llond cae o rannu straeon,
hwyl a siom "yn ôl y son."

Yma, roedd rhoddion cwmwd
haid o gnau yn aeddfed gnwd;
hel y llus yn deulu llon
a dewis mwyar duon.
Rhoi i'n cof wir enw cae
a hanes bathu'r enwau.
Pob mab yn falch cydnabod
gwerth y rhoi, gweld gwyर्थ y rhôd.

Mae'n braf fod mannau o'n bro
yn denu a'n hail-danio
heno yn fflam ein hanes
a hynny'n llu er ein lles.
O fewn ein ffin mae Dinas
'Lidir hen a'i lechen las;
hyd y lle yn wead llwyr
mae olion ffyrdd y milwyr.
Drwy'r tARTH i Gegin Arthur
daeuai'r cās, roedd dŵr i'w cur.
Yn y mawn ôl dawn a dysg,
y dorf a drodd at derfysg.
Ar ryfeddol fro Iolen
enwau llaith sy'n agor llen.

Ein gwefr cyflwyno'r gyfrol - i uno
 olyniaeth ryfeddol;
 ennyd yw bob taith ddynol,
 ddoe ein hil a ddaw yn ôl.

I Gareth, mwy na geiriau,
- na'i harddwch
yw cerdded y llwybrau.
Ei ffydd yw'r angen coffáu
yr aur sy'n britho'r enwau.

Richard Llwyd Jones



y CYNLLUN CERDDE A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT



Gareth Roberts yn cyflwyno'r map llwybrau newydd i Eifion Jones, Ysgol Brynrefail

Daeth 40 o bobl ynghyd yn y Caban, Brynrefail nos Iau Sed o Fedi i lansiad swyddogol map Troedio Llwybrau Llanddeiniolen. Gareth Roberts, cydlynudd 'Cynllun Cerdde' a Darganfod Menter Fachwen' oedd yn gyfrifol am y map a thrwy ddangos cyfres o sleidiau fe sgwrsiodd am hanes y plwyf o Oes yr Iâ bron i'r presennol. Soniodd hefyd am rai datblygiadau ers cyhoeddi'r map, yn arbennig rhagor o ymchwil sydd wedi ei wneud yn Ffynnon Cegin Arthur (cawn wybod mwy am hyn yn rhifyn yr Eco ym Mis Tachwedd).

Esboniodd Gareth fod y Cynllun Cerdded a Darganfod wrthi'n datblygu cyfres o fapiau a gweithgareddau o Lŷn i ben draw Sir y Fflint. Yn lleol, i ychwanegu at fapiau Llanddeiniolen a Llanrug, dylse y bydd mapiau o ardal Waunfawr,

Llanberis/Nant Peris, Y Felinheli a phlwyf Pentir yn cael eu cyhoeddi o fewn y flwyddyn nesaf. Diolchodd Gareth i aelodau Cyngor Llanddeiniolen, presennol a gorffennol, am y weledigaeth o greu y map gwreiddiol nôl yn 2008. Dechreuodd hyn y broses o greu y cynllun presennol sydd yn tyfu trwy'r adeg. Diolchodd Gareth hefyd i CADW am eu caredigrwydd drwy ariannu a chefnogi'r map.

Yn ystod y noson fe gyflwynwyd copiau o'r mapiau wedi eu fframio i bob ysgol yn yr ardal (drwy garedigrwydd y cyngor). Yn y llun, mae Gareth yn cyflwyno'r map i Mr Eifion Jones, prifathro Ysgol Brynrefail. Cyflwynwyd copiau mewn ffram hefyd i staff a chynrychiolwyr Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgolion Rhiwlas, Llanrug, Penisarwaun, Deiniolen, Bethel a Chwm y Glo.

GWENER 4.10.13 2yp
CYLCHDAITH LLANRUG (2 milltir)
CYCHWYN: Y Sgwâr. CYMEDROL.
MERCHER 10.10.13 10yb
CWM Y GLO / STABLAU (3½ milltir)
CYCHWYN: Cafi Menter Fachwen, Cwm y Glo.
CYMEDROL-ANGEN SGIDIAU CERDDED
SADWRN 19.10.13

DAU DAITH HAWDD SADWRN. Roedd galwad mawr am y ddau daith yma dros yr haf a nifer wedi gofyn i mi eu gwneud eto. Dewch i weld canlyniad archwiliad bach archaeolegol yn Ffynnon Cegin Arthur. Mae taith Eglwys Llanddeiniolen yn addas i bobl sydd ddim yn gallu cerdded llawer.

10 yb

EGLWYS LLANDDEINIOLEN (½ milltir)
CYCHWYN: Gors Bach, Llanddeiniolen. HAWDD IAWN.
2 yp

FFYNNON CEGIN ARTHUR (2 milltir)

CYCHWYN: Ysgol Penisarwaun.

ANGEN SGIDIAU CERDDED.

SADWRN 26.10.13 10yb

CYLCHDAITH WAUNFAWR (1¾ milltir)

CYCHWYN: Y Ganolfan, Waunfawr. HAWDD.

MERCHER 30.10.13 10yb

NANT PERIS (2 milltir)

CYCHWYN: Yr Eglwys. CYMEDROL.

Cysylltwch a Gareth Roberts yn menter fachwen ar 01286
872014 neu ar 'garmel@fsmail.net'.

Ymysg y teithiau mis nesaf bydd cylchdaith Bont Borth/Pont
Britannia a noson yn gwylïo'r sêr.



Mrs Nan Owen, Berwyn, Bethel, a'r Parchedig Marcus Robinson yn dilyn derbyn Medal Gee mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Penuel, Bangor.

Clwb Bro Bethel Cyfarfu'r aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor yma dan lywyddiaeth Parchedig Marcus Wyn Robinson. Wrth groesawu pawb, anfonwyd cofion at Eiriona Williams, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar a chydymdeimlwyd â theulu Nancy Williams, Bro Eglwys, a fu farw ddechrau Gorffennaf.

Soniwyd am ddau lythyr oedd wedi cyrraedd oddi wrth Age Cymru Gwynedd a Môn, un yn gwahodd aelodau i gyfarfod Fforwm a'r llall yn hysbysu'r aelodau am y Cyfarfod Blynyddol, manylion y ddau gyfarfod ar gael gan yr Ysgrifennydd.

Mae'r Clwb am geisio am arian o dan gynllun y Daily Post talebau WISH eto eleni, a gofynnir yn garedig i bawb gasglu'r tokens fydd yn ymddangos yn y Daily Post, y mwyaf o'r talebau a gesglir y mwyaf y swm a dderbynnir.

Pleser o'r mwyaf oedd i'r Llywydd estyn croeso arbennig i Arwel Jones, Penisarwaun. Teithio tu ôl i'r gân' oedd testun ei sgwrs a chafwyd orig hynod o ddifyr yn ei gwmni. Ei daith gyntaf oedd pan yn 7 oed a hynny ar daith i Efrog Newydd gyda'i fam ac yn gweld teledu am y tro cyntaf. Cafwyd hanes teithio gyda Hogia'r Wyddfa a Pharti'r Ffynnon i America a Chanada ym 1971 a chlywed hanesion difyr tra yno. Yn gwmni i Hogia'r Wyddfa ar un daith oedd Trebor Edwards, Rosalind a Myrddin, a Marian Roberts, ac yn ystod y daith honno soniwyd am sawl tro trwstan. Mae'r Hogia wedi canu yng Nghymdeithas Gymraeg Vancouver, wedi cyfarfod â Chymru yn Awstralia a diddanu pobl yn y Cymrodorion yn Nigeria ac mae eu cyfraniad ym myd canu dros 50 o flynyddoedd wedi bod ym amhrisiadwy. Diolchwyd yn gynnes iawn i Arwel am sgwrs llawn hiwmor, gan ddod a gwên i wynebau pawb, gan Geraint Elis. Diolch hefyd i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am baratoi'r baned.

Y cyfarfod nesaf fydd ar Hydref 1af, yn Ffestri Cysegr a disgwylir Marion Hughes, Llanllechid.

Adroddiad Merched y Wawr Bethel

Wedi seibiant dros yr Haf dechreuodd tymor newydd Merched y Wawr Bethel yn festri Cysegr, nos Fercher 11eg o Fedi. Daeth nifer dda iawn o aelodau, hen a newydd at eu gilydd, ac fe'u croesawyd gan y llywydd Jen Roberts. Llongyfarchwyd plant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant addysgol, a dymuniwyd pob llwyddiant iddynt mewn coleg neu waith. Cydymdeimlwyd a Rhian Hughes a gollodd ei thad yng nghyfrath, a hefyd Edwina Morris a gollodd ei chwaer, Margaret yn ystod yr haf. Croesawyd Gwyneth Williams yn ol wedi gwella'n dda yn dilyn triniaeth. Derbyniwyd y fantolen gan Nora, trysorydd llynedd, diolchiwyd iddi am ei gwaith. Diolchiwyd hefyd i'r aelodau fu'n casglu o ddrws i ddrws er budd Sefydliad Prydeinig y Galon. Cyfanswm y casgliad yn Seion a Bethel oedd £382.93. Diolchiwyd i Liz Watkin, Mair Price, Mary Evans a Mair Williams am weithio 'n galed ar stondin Merched y Wawr yng Ngwyl Bethel. Diolch hefyd i Rita am baratoi'r gem. Casgliwyd £125.65 yn ystod y pnawn a rhoddwyd £30 i goffra'r Wyl. "Cyhoeddwyd fod 'Te Bach McMillan' yn festri Cysegr o 2-6 ar Fedi 27. Tal mynediad yn £2.

Ein gwr gwadd oedd Neville Hughes, (Hogia Llandegai), cawsom noson hwyliog llawn hwyl a chanu yn ei gwmni. Soniodd am dyddiau difyr Hogia Llandegai o'u dechreuad fel grwp sgiff a'u cyngerdd cyntaf yn 1957 pryd cawsant 12 swllt i'w rannu rhwng wyth ohonynt. Cynyddodd y galw arnynt i ganu mewn cyngherddau yn yr ardal a dechreusant gyfieithu caneuon poblogaidd Americanaidd y cyfnod a rhai o ganeuon Triawd y Coleg. Aeth yr Hogia o'r wyth gwreiddiol i bedwar, Ron, Neville, Roy a Now tan eu cyngerdd ffarwel cyntaf yn 1973. Yn 1979 daeth Now, Ron a Neville yn ol adeg Eistedfod Genedlaethol Caernarfon i noson fythgofiadwy yn y Majestic pryd daeth Now ac oen ar y llwyfan yn ystod y gân Defaid William Morgan. Cynhaliwyd y cyngerdd olaf un yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn 1996. Bu'n noson agoriadol o chwerthin a phawb yn cyd ganu efo Neville caneuon roedd pawb yn eu cofio ers dyddiau eu plentyndod.

Diolchiwyd i Neville gan Mair Price dymunodd yn dda hefyd i Aled mab Jen sy'n priodi efo Casi ym mhen pythefnos. Cafwyd swper blasus a baratowyd gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Eirlys Williams, Mair Price, Sheila Roberts ac Ann Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 9fed yng nghwmni Sara a Miriam o gwmni Roberts Felinheli.

Ewch draw i'n gwefan www.mywbethel.org er mwyn cael mwy o hanesion a lluniau o'r noson. "

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Llongyfarchiadau i Dewi Griffiths (Llwyn Eithin gynt) ar ei lwyddiant yn ddiweddar yn un o gystadlaethau pwysicaf y bandiau pres, sef y 'British Open'. Mae Dewi yn brif cornetydd gyda Band Tref Tredegar a derbyniodd Dlws Coffa Stanley Wainwright am yr unawdwr gorau yr holl gystadleuaeth. Roedd dau arall o Fand Tredegar wedi ennill tlysau hefyd, a'r canlyniad ar ddiwedd y dydd oedd i Fand Tredegar ennill allan o 18, gyda Band Cory yn ail agos iawn iddynt.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
 5.30am-7.30pm
 (Llun-Sadwrn)
 5.30am-3pm (Sul)

Cofion Rydym oll yn dymuno yn dda i Euron Evans, Min y Don. Cyfarfu Euron â damwain bur enbyd yn ddiweddar pan gafodd anaf drwg i'w ben drwy gael ei daro â charreg a hyrddiwyd ato gan beiriant torri gwair. Treuliodd gyfnod mewn ward arbenigol yn Ysbyty Stoke-on-Trent ac wedi dychwelyd gartref mae wedi bod yn derbyn therapi yn Ysbyty Eryri ac wedi gwneud cynnydd arbennig iawn. Rydym oll yn falch fod y driniaeth a'r gofal gafodd wedi dod ag adferiad mor foddhaol iddo.

Carai Euron ddiolch yn fawr i'r teulu oll a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb iddo dros yr wythnosau diwethaf. Diolch o galon i bawb.

Cydymdeimlad Mae ein cydymdeimlad dwysaf â Gwyn Williams, Tros yr Afon, yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei fam, Mair Williams, Elidir View, Bwlch, Cwm y glo.

Sefydliad y Merched Bu nifer o weithgareddau ymlaen gan y gangen leol yn ddiweddar. Yn ystod mis Gorffennaf, cafodd yr aelodau fwynhad arbennig o noson Bowlio Deg yn Llandudno gyda phryd o fwyd ar y ffordd adref. Bu prysurdeb mawr yn arwain i fyny i'r Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd. Gweithiodd pawb i roi arddangosfa wych at ei gilydd. Daeth y gangen yn bedwerydd ac roedd pawb yn falch o'r ymdrech a wnaed. Bydd yn bosib i bawb weld yr arddangosfa yng Nghyfarfod Blynnyddol y Sir yn ysgol Brynrefail ar Hydref 2il. Bu'r gangen hefyd yn ddiweddar ar ymweliad â Gwinllan Pant Du ym Mhenygroes. Cafwyd croeso cynnes gan Richard a'i briod pryd y tywyswyd yr aelodau o amgylch y winllan,

cael hanes y busnes a gorffen y noson gyda phryd o fwyd.

Ar Fedi 20fed cafwyd noson o 'Generation Game' yn y Ganolfan yn Llanberis a chafwyd cwmni Glyn Price fel siaradwr gwadd yn nghyfarfod mis Medi o'r gangen yn y Caban.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Fawrth, Medi 3ydd. Yn wahanol i'r arfer bu i'r aelodau gael gwahoddiad gan Lowri Roberts Williams i ymgynnull yng Ngodre'r Coed a daeth nifer dda ynghyd i fwynhau noson â naws cerddorol iddi.

Croesawyd pawb yn gynnes i'r cyfarfyddiad a chafwyd myfyrdod ynghyd a chyflwyniad pwrpasol gan Gadeirydd y noson, Gwyn Hefin Jones.

Y siaradwr gwadd oedd Gwilym Lewis, y cerddor o Gaergybi. Yn ei ddull dihafal ei hun rhoddodd gipolwg bywiog, llawn hiwmor ar adegau o'i yrfa fel cerddor a chyfansoddwr - o'i fagwraeth gynnar, ei yrfa fel athro cerdd mewn ysgolion a cholegau a hynny wedi mynd ag ef i ddysgu yn yr Iseldiroedd ar un cyfnod, cyn teithio'r byd fel perfformiwr ar y llongau pleser.

Cafodd pawb fwynhad arbennig o'i sgwrs a'i ddatganiadau cerddorol. Yn dilyn mwynhaodd pawb luniaeth flasus wedi ei baratoi gan Lowri. Cyflwynwyd gair o werthfawrogiad diffuant am noson mor ardderchog gan y gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Bydd cyfarfod mis Hydref fel arfer ar ffurf taith ac mae'r trefniadau yn llaw yr ysgrifennydd, Dafydd Ellis, Gweledfa.

Cyfarfod i drafod opsiynau traffig Brynrefail



Carolyn Roberts, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.
Dylan Wyn Jones, Rheolwr Tîm Gwelliannau Traffig, Cyngor Gwynedd.

Hefin Williams, Cyngorydd Sir, Ward Penisarwaun.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Caban bawn dydd Llun, Medi 9. Galwodd tua 20 o drigolion y pentref i mewn i weld yr arddangosfa o'r 3 opsiwn.

Un opsiwn o gyfeiriad Penllyn, un tuag at Penllyn a'r trydydd oedd peidio newid dim.

Ar ôl astudio'r 3 opsiwn 'roedd cyfle i'r trigolion lenwi holiadur i ddatgan eu dewis.

Cafwyd sawl awgrym gyda sylwadau diddorol iawn yn ystod y trafodaethau.

Un awgrym gan reolwr Bysiau Padarn oedd y buasent yn gwirfoddoli i ystyried cael trefn un ffordd i'r bysiau.

Efallai hefyd buasai cerbydau'r Cyngor Sir, megis y lori sbwriel a'r lori ail-gylchu yn dilyn yr un drefn.

'Roedd sawl barn gref o blaid ac yn erbyn cael trefn un ffordd, ond da oedd gweld eu bod yn fodlon cyfaddawdu i oresgyn y trafferthion trafndiaeth ym Mrynrefail.

Bydd canlyniadau'r holiadur ar gael ar ôl i swyddogion trafndiaeth y Cyngor Sir eu dadansoddi.



Parti'r Pentre' Ddydd Sadwrn, Medi 7fed, daeth nifer dda o blant ac oedolion ynghyd i'r Caban i fwynhau Parti'r Pentre' 2013.

Ymhlith yr aml weithgareddau cafwyd Gweithdy Syrcas, Standin Tombola gyda gwobrau gwerthfawr, Ras Falwod a hefyd cafwyd ymweliad gan y ddwy fules, Winnifred a Jennie o Warchodfa Mulod Dinorwig - Mulod Eryri. Tra roedd yr holl weithgareddau ymlaen cafwyd adloniant gwych gan y bandiau lleol - 'Banda Bacana' a 'Cowbois Celtaidd' ac yn hwyrach gan Karina Francis. Hoffai trefnwyr y Parti a staff Caban ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr holl weithgareddau ac at y rhoddion a wnaed i Ward Alaw ac i Warchodfa Mulod Eryri.

Un o'r prif wobrwyr ymhlith nifer oedd Teisen ar y thema 'Ras Malwod' a oedd yn pwysu 4 pwys a 12 owns (2163g) a'r enillydd o Ynys Môn!

Mawr yw ein diolch ninnau fel pentrefwyr i'r trefnwyr hwythau a staff Caban am drefnu prynhawn o weithgareddau amrywiol a stondinau mor chwaethus ac am adloniant a lluniaeth o'r radd flaenaf. Diolch yn fawr iawn.

Oedfaon Hydref am 5.30 yr hwyr

- 6 Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
- 13 Parch W.R. Williams, Y Felinheli
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 20 OEDFA DDIOLCHGARWCH dan arweiniad y Canon
Idris Thomas, Deiniolen
- 27 Mr Edward Morus Jones, Llandegfan



Lorcan, Alex, Elis Morgan, Huw, Catrin, Elis Sion, Alesha, Dylan ac Alfie.

Ysgol Gymuned

Eleni plant Ysgol Cwm y Glo sydd yn cael y fraint o ysgrifennu i Eco'r Wyddfa, felly rydych chi fel darllenwyr am gael clywed yn union beth rydym ni y plant wedi bod yn gwneud a beth sydd yn digwydd yn yr ysgol.

Yn gyntaf rydym eisiau dweud croeso yn ôl i Miss Mared gan ei bod hi wedi cael swydd yma yn Ysgol Cwm y Glo ar ôl hyfforddi gyda ni am ddwy flynedd.

Rydym eisiau rhoi croeso mawr i blant newydd Dosbarth Meithrin ac y rhai sydd yn llawn amser yn y Dosbarth Derbyn. Dyma nhw – mae nhw yn gymeriadau!

Pob lwc i Miss Smith fydd yn ein gadael ni mis nesaf i fynd ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Dewch yn ôl yn fuan i ddangos y babi newydd i ni Miss Smith a phob lwc!!!

Diolch yn fawr i Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a Mr. Gareth Roberts, sef tad Gwyn, am roi mapiau o ardal Llanddeiniolen i ni wedi eu fframio, mae nhw yn llawn o wybodaeth diddorol iawn.

Llongyfarchiadau i Eleanor Edwards-Jones, sydd bellach ym mlwyddyn 7 Ysgol Brynrefail ac i Catrin Jones, dosbarth Derbyn, am ennill cystadleuaeth Tesco i dynnu llun aderyn. Mae'r ddwy wedi derbyn gwobr o £5 yr un, a'r Ysgol wedi derbyn boc o adnoddau. Diolch yn fawr.

Mae dechrau y flwyddyn ysgol yn gyfnod prysur iawn yn ein ysgol ni, felly gobeithio erbyn y rhifyn nesaf bydd llawer mwy i'w rannu ac i'w ddweud wrthydd chi.

PWYSIG!!! Rydym yn cynnal prynhawn coffi ar Fedi 24ain am 1.30yh i godi arian i'r elusen Macmillan, croeso cynnes i bawb a cofiwch ddod a digon o arian i brynu ein cacennau.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i ni yma yn Ysgol Cwm y Glo a gobeithio y byddwch chi yn edrych ymlaen i ddarllen ein newyddion ni yn fisol. Hwyl am y tro.

Rob, Keith, Noah, Katrina, Aaron a Riannon.

(Disgyblion Blwyddyn 6)

Gwellhad Buan Dymunwn wellhad llwyr a buan i Diane Roberts, 22 Dôl Afon, ac i Veronica Williams, Glanbogelyn, ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Dafydd, 16 Dôl Afon, ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Llongyfarchiadau i Rebecca a Ben, Aran, ar enedigaeth merch fach, Asia Faye Munawar, wyres fach i Nigel Williams.

Marwolaeth Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, Glan-y-Don, ar Awst 21 bu farw Gwilym Eifion Jones (Eifion) yn 57 mlwydd oed. Roedd yn fab i'r diweddar Hugh a Joyce Jones. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i Goleg Llandrillo i wneud cwrs Cogydd, a dyna fu ei waith am rai blynnyddoedd cyn symud i feysydd eraill. Daeth Eifion yn adnabyddus iawn pan aeth i weithio i gwmni bysys KMP acyna Padarn Llanberis fel yr dangoswyd gan y dorf enfawr a ddaeth i dalu eu teyrnged olafiddo ddydd ei angladd.

Bu'r angladd ddydd Iau, Awst 29, yn Amlogsgfa Bangor, pryd y gwasanaethwyd gan y Barchedig Ddr Carol Roberts. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Avril, ei ddwy ferch, Carys ac Anest, ei dair wyres fach, Alaw, Tesni a Siwan yr oedd ganddo gymaint o feddwl ohonynt, ei feibion yng nghyfraith, Dylan a Lewis, a'i frawd Alan a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.


Ysgol Cwm y Glo Dymuniadau gorau i Mrs Nia Oliver sydd yn ôl fel Pennaeth mewn Gofal ar ôl ymadawiad Mr Garem Jackson y tymor diwethaf.

Diolch Dymuna Avril, Carys, Anest ac Alan ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad o golli Eifion.

Diolch i'r Parchedig Ddr Carol Roberts a Gwynfor a Jane o E.W. Pritchard Llanberis am eu cymorth. Diolch am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis ac Uned Alaw Bangor.

U n d e b - y - M a m a u

Ailddechreuwyd ein cyfarfodydd ar bnawn Mawrth, 17 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mair Caernarfon gan y Ficer, Y Parch Jeffrey Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Lola Jones. Yn absenoldeb Mrs Auriel Howell yr oedd y cyfarfod yng ngofal Mrs Louie Jones. Trafodwyd rhai materion a chafwyd lluniaueth wedi ei drefnu gan Louie a Mrs Jenny Salisbury Jones. Rhoddwyd y raffl ganddynt ac fe'i henillwyd gan Mrs Katie Williams. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i Mrs Auriel Howell ar ôl cael triniaeth yn Lerpwl. Diolchwyd i'r Ficer a'r organyddes gan Louie. Terfynwyd trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf ar 15 Hydref yn Feed my Lambs



FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
 Symudol- 07840 794269

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



Diwedd cyfnod yng Nghwm y Glo.

Nos Iau, 19eg o Fedi cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yn Eglwys Sant Gabriel, Cwm y Glo. Roedd Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Andrew John yn bresennol ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Dr Carol Roberts. Yn cymryd rhan hefyd roedd cor plant yr ysgol gynradd leol. Yn ei hanerchiad i'r gynulleidfa, dywedodd y Parchedig Dr Carol Roberts mai gwasanaeth o ddiolchgarwch oedd hwn mewn gwirionedd: diolchgarwch am yr holl flynyddoedd o addoli yn yr eglwys, ond ei fod hefyd yn ddiolchgarwch trist am mai dyma ddiwedd yr addoli hwnnw yn ei ffurf bresennol.

Siaradodd yr Esgob am orffennol, presennol a dyfodol yr Eglwys yn y pentref. Pobl, meddai, yw'r Eglwys, nid brics a mortar. Cadarnhawyd hynny gan y Rheithor, gan bwysleisio y byddai Cristnogaeth yn parhau yn y pentref er fod adeilad yr eglwys wedi ei gau.

Yn dilyn y gwasanaeth gwahoddwyd y gynulleidfa i'r ysgol am luniaeth ysgafn.

Miri Medi. Cynhaliwyd pnawn difyr o gystadlaethau, gemau a chwaraeon ar Fedi 7ed yn y Ganolfan. Diolch i aelodau pwyllgor y cae chwarae ac hefyd i Hannah Hughes am drefnu y gwobrau a'r medalau i'r plant. Daeth llu o gacennau i'r gystadlaethau 'Bake Off' a rhoddwyd y cyfan ar ocsiwn ar y diwedd. Yr enillwyr yn adran y plant oedd Martha Ceiriog, Scarlet a genod Cefn Gof, ac yn adran y merched Hannah Medi, Tegwen Hughes ac Alwen Hughes. Diolch i Ganolfan Hamdden Plas Silyn am ddeunyddiau chwarae, i'r Gymdeithas Cae Chwarae am gefnogaeth ariannol, i Ffion Jones fu'n ddiwyd yn paentio wynebaw, i Rhiannon Roberts fu'n beirniadu y 'Bake Off' ac i Garej Gwalia am docyn anrheg.

Plygu'r Eco. Byddwn yn plygu'r Eco yng Nghaeathro ar ddydd Iau, Tachwedd 28, o 2.30 ypnawn ymlaen. Erfyniwn am gymorth a chymwynasgarwch gan unrhyw rai sydd ac awr neu ddwy i sbario, amser te neu yn gynnwys gyda'r nos.

Gwasanaethau y Capel Cynhelir gwasanaethau Mis Tachwedd fel a ganlyn:

Tach 3ydd. Am 2.00 y prynhawn bydd gwasanaeth cymun dan ofal Y Parch Marcus Robinson.

Tach 17eg. Am 2.00 y prynhawn gwasanaethir gan Y Parch Huw Dylan.

Dymuno gwellhad buan. Deallwn bod dau frawd o Gaeathro yn cael triniaethau yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad llawn i Bryn a Tony Griffiths yn fuan iawn.

Tynfa Misol Caeathro Dyma enillwyr Mis Medi. Alun a Vera Roberts, Monfa (64) £40; Keith Jones, Bodawel (107) £25; Aled Jones, 9 Rhes Glangwna (46) £15; ac Eric a Eluned Roberts, Craiglwyd, Glandŵr (47) £5.

Cymdeithas Cae Chwarae Bydd aelodau'r Gymdeithas yn codi arian drwy weini te yn Marathon Eryri eleni. Gofynnir i unrhyw un sydd ar gael i helpu ar Hydref 26ain 2013 gysylltu â Dewi Jones (678025) neu unrhyw aelod o'r pwyllgor cyn Hydref 21ain os gwelwch yn dda.

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Hefyd

RHEILFFORDD LLYN PADARN

POBLOGAIDD YN 2012
HELFA CALAN GAFAF
Hanner tymor yr Hydref

Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwarchod a darganfu gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11^{eg} y bore tan 2.45 y prynhawn

Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!
Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 02.11.2013)

Mae Sion Corn yn ei ôll!
Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anhregion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 7^{fed}/8^{fed}, 14^{eg}/15^{eg}, 21^{ain}
Oedolion a phlant o £8.50
(plant o dan dair oed o £3.50)

Rhaid archebu o flaen llaw



Dylan Lewis yn cyflwyno'r sic i Uned Ddamweiniau Ysbyty Gwynedd.

Cyflwyno rhodd er diolch. Yn gynharach eleni, a hynny'n dilyn damwain ddifrifol, cwblhaodd Dylan Lewis gwr ras 10k Deiniolen, a hynny i godi arian i Uned ddamweiniau Ysbyty Gwynedd a fu'n gyfrifol am achub ei fywyd. Yn y llun gwelir Dylan yn cyflwyno sic am £1182 i aelodau'r Uned; gyda diolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr elusen.

Dymuna Margaret Roberts, Crud yr Awel, Porth Gogledd, ddiolch o galon i staff, plant, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Gwaun Gynfi am eu caredigrwydd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau helaeth a dderbyniodd.

Priodas Llongyfarchiadau i Emyr a Sarah Gibson ar achlysur eu priodas yn ystod mis Medi, dymuniadau gorau i chi eich dau.

Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013

Llongyfarchiadau mawr i Lyndsey Vaughan Pleming ac Elfed Morgan Morris ar eu llwyddiant yn yr eisteddfod yr haf yma. Llongyfarchiadau hefyd i Annette Bryn Parri a Malcolm Allen ar gael eu hurddo i'r Orsedd ac, wrth gwrs, i'r Band am eu llwyddiant ysgubol.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen Fel y gobeithiwyd, mae dau dîm yn y pentref ar gyfer tymor 2013/14, sef dan 9 a dan 11. Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i'r plant a dymunwn bob llwyddiant iddynt. Gofynnir am gefnogaeth i'r plant yn ystod y tymor, unai trwy ddod i wyllo gemau ar gae yr Allt Ddu, Dinorwig neu ar gae Bwthyn, neu trwy roddion ariannol tuag at beli newydd neu hyd yn oed noddi crysau'r tîm dan 9. Mi fyddai unrhyw gymorth yn cael ei werthfawrogi.

Un criw sydd wedi bod yn hael unwaith eto yw criw Bingo Tŷ Elidir, mae eu cefnogaeth yn ddi-dor ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolch yn fawr iawn unwaith eto.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch Atgoffir pawb fod yr Eisteddfod eleni yn cael ei chynnal ar Hydref 26ain yn

Blodau Racca
(ALWYN A SARAH JONES)
Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU

festri Capel Ebeneser am 11.00 a 6.00. Mae'r testunau ar gael yn eich siopau lleol neu gan aelodau'r pwyllgor. Cofiwch, dewch i gefnogi!

Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig Cyfarfu cyfarfod cyntaf y tymor o Gymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig ar nos Lun, Medi 2il. Cafwyd bwrdd gwerthu Moes a Phryn ac yna noson o "Hel Atgofion."

Roedd rhai o'r aelodau wedi dod â hen luniau o'r ardal, cylchgronau a thaflenni gyda hwy, a phleserus a diddorol iawn oedd edrych drwyddynt a'u darllen. Arweiniwyd y noson gan Mr Brian Price a gofalwyd am y lluniaeth gan Rhianwen Jones a Buddug Hughes. Diweddwyd drwy gydadrodd y Gras.

Diolch Dymuna Alwyn, Valmai, Lorraine, Owen, Gwawr ac Euros ddiolch o waelod calon i Seindorf Arian Deiniolen (yn enwedig Dylan a Nia) am drefniadau mor ardderchog i gynnal "Taith Gerdded Ysgoloriaeth Iwan". I Dylan Cole am gynllunio'r crysau-t, hefyd

Carwyn, Meirion a Hefin am eu cymorth.

Diolch i bawb ddaru gymryd rhan yn y daith, rhai o bellter! Diwrnod bythgofiadwy ac emosiynol.

Diolch i'r cwmnïau lleol am eu caredigrwydd ar y diwrnod.

Carem ddiolch hefyd i Yvonne, Sharon, Margaret a Gill am ddarparu'r wledd yn yr Hen Felin ac i bawb a gyfrannodd ato.

Yn bennaf oll diolch i chi am y rhoddion ariannol hael tuag yr Ysgoloriaeth a Chronfa Owen ac i bawb a fu mor barod i'w gasglu.

Buasai Iwan mor falch o feddwl beth sydd wedi cael ei wneud i gofio amdano.

Mae blwyddyn wedi mynd heibio, a'r hiraeth creulon yn dal i'n llethu, ond mae'r cydymdeimlad, y caredigrwydd a'r geiriau a gawsom gennych chi, deulu, cymdogion a ffrindiau, pell ac agos, wedi bod yn gymorth mawr i'n cynnal ni fel teulu, i wynebu'r golled enfawr a ddaeth i'n rhan. Diolch o waelod calon i bawb.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK a dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

Milwyr o'r fro yn y Rhyfel Byd Cyntaf



1916 Robert Evans -rhes flaen, ail o'r dde

Daeth y lluniau i law gan Alan Carmichael o Coalville. Roedd ei fam, Margaret Hughes yn ferch i Joyce a David Hughes, 1 Cambrian Terrace, Llanberis. Yn y lluniau mae Robert Hugh Evans, gor-ewythr i Alan. Robert yw'r Corporal sy'n sefyll wrth ddrws y cwt a'r un sy'n eistedd yn y lluniau eraill. Gwirfoddolodd i'r Royal Welsh Fusiliers ym mis Ionawr 1915 a'i osod ym Mataliwn 14 (a fu'n ymladd yn ddiweddarach gyda'r 38th (Welsh) Division. Erbyn Awst y flwyddyn ganlynol roedd wedi ei ddyrchafu'n Gorporal a symudodd y fataliwn o Landudno i Winchester cyn croesi i Ffrainc yn ystod Rhagfyr 1915. Roeddent yn rhan o'r frwydr fawr yng Nghoedwig Mametz ar y Somme yng Ngorffennaf 1916 ble collwyd miloedd o fywydau.

Lladdwyd Robert ar y 24ain o Orffennaf 1917. Roedd yn un o'r ffosydd am chwech y bore, a chlywodd cydymaith iddo, - Dick Jones o westy'r Prince of Wales, Llanberis - un o'r bomiau'n taro. Claddwyd tri o filwyr mewn rwbel, a Robert yn un ohonynt. Er pob ymdrech i glirio'r rwbel, canfu Dick ei gyfaill yn farw. Claddwyd Robert yn y fynwent filwrol, a Dick a gysylltodd efo'r teulu i gyfleu'r newyddion trist.

Dyna'r hanes trist yn fyr. Mae Alan bellach yn tybied a'i milwyr o'r fro hon yw rhai o'r lleill yn y lluniau. Mae'r enw 'Snowdonian' yn cael ei gysylltu a'r fataliwn, a gallai hynny fod oherwydd fod cymaint o fechgyn ifanc dyffryn Peris yn aelodau.

Dyma enwau a pheth hanes byr o fechgyn eraill bro'r "Eco" a ymunodd tua'r un cyfnod a Robert Hugh Evans. Efallai fod y lluniau ym meddiant rhai o'u teuluoedd heddiw, ac y gellir rhoi enwau i bawb sydd yn y lluniau.

Arthur Owen, Votty, Llanberis. Dyrchafwyd yn gorporal yn Llandudno tua Chwefror 1915, ac erbyn Awst mae'n 2nd Lieutenant. Yn 1918 mae'n aelod o'r Burma Rifles.

Isaac Hugh Roberts, Minafon, Bryn Afon Terrace, Llanrug. Aeth i Ffrainc gyda'r 14th Battalion.

Hugh Prydderch, Glanrafon, Cwm y Glo. Fe'i clwyfwyd ar y Somme adeg Mametz. Cafodd ei drosglwyddo i Bulgaria a lladdwyd ym mrwydr Dorian ym Medi 1918.

Frank Parry, Rhes Isaf, Clwt y Bont. Cafodd salwch yn haf 1916 a bu mewn ysbyty yn Ffrainc. Symudodd yn ddiweddarach i'r Labour Corps.

William Ellis Williams, Fron Goch, Llanberis. Ymunodd yn Ionawr 1915, ond fe'i rhyddhawyd ar sail iechyd ym mis Mawrth.

Robert Griffith Hughes, Penclogwyn, Cwm y Glo. Fe'i trosglwyddwyd i'r Royal Defence Corps a bu farw o niwmonia ar fferm ym Mon yn Nhachwedd 1918.

John Edwards, Terfyn, Dinorwig. Fe'i clwyfwyd ym mis Mai ac eto yng Ngorffennaf 1916. Trosglwyddwyd i'r Labour Corps ond rhyddhawyd yn Nhachwedd 1917 oherwydd ei glwyfau.

Ellis John Evans, Dinorwig Mill, Brynrefail. Clwyfwyd ar y Somme adeg brwydr Mametz.

Robert Williams, 5 Ceunant Coch, Llanberis. Rhyddhawyd ar sail iechyd ym Mai 1915.

Owen Jonah Owen, 5 Llain Wen, Llanberis. Clwyfwyd ym mrwydr Mametz a bu farw mewn ysbyty yn Birmingham yn Nhachwedd 1916.

Owen, Humphreys, 5 Bethesda Street, Llanberis. Aeth i Ffrainc a'i drosglwyddo i'r Royal Engineers ac yna i'r Royal Defence Corps ble bu'n gwarchod carcharorion rhyfel.

William Evan Morris, 5 Marian terrace, Deiniolen. Rhyddhawyd ar sail iechyd fis Mawrth 1915.

Hugh Williams, 2 Gwastadnant, Nant peris. Clwyfwyd ar y Somme yn haf 1916. Ym mis mai 1918 fe'i cymerwyd yn garcharor rhyfel.

Richard Jones, Prince of Wales, Llanberis. Clwyfwyd ym mis



1916 Robert Hugh Evans -gwaelod, canol

mawrth 1916 ac eto yn Awst. Fe'i lladdwyd yn Awst 1918 tra'n ymosod ar y gelyn.

David Richard Jones, 1 Eilian terrace, Llanberis. Lladdwyd yng Ngorffennaf 1916 ym mrwydr Mametz.

Evan John Williams, Llainwen, Llanberis. Lladdwyd yn y ffosydd blaen yn Ebrill 1916.

Thomas Hughes, Tanygraig, Cwm y Glo. Clwyfwyd ar y Somme. Symudodd i'r labour Corps ac fe'i rhyddhawyd ym Mawrth 1918.

Michael Morris, Bryn Awelon, Cwm y Glo. Lladdwyd efo ffrwydrbelen (shellfire) yn y ffosydd blaen Ionawr 1917.

William Foulkes Williams, Craigle, Brynrefail. Clwyfwyd ar y Somme a bu'n brwydro'n ddiweddarach yn Bulgaria.

Hugh William Jones, Penllyn, Cwm y Glo. Clwyfwyd ym mrwydr Mametz a threuliodd gyfnod mewn ysbyty yn Newcastle.

Evan Aneurin Williams, 9 Ceunant Street, Llanberis. Clwyfwyd ym mrwydr Mametz ac yna ei wenwyno gan nwy ym Medi 1918.

John William Griffiths, 5 Victoria Street, Llanberis. Rhyddhawyd ar sail iechyd yn Chwefror 1916.

Meilir Owen, 3 Water Street, Llanberis. Pan ymunodd rhoes ei oedran yn 18 mlwydd a 7 mis. Aeth i Ffrainc yn Rhagfyr 1915 ond fe'i rhyddhawyd yn Chwefror 1916 oherwydd ei oedran. Mae'n ymddangos iddo ymuno ac yntau'n ddim ond 15 mlwydd a 7 mis.

Edward Hughes, Trevor Terrace, Tan y Coed. Rhyddhawyd ar sail iechyd ym Mai 1915.

William Roberts, Bryn Bras Lodge, Bryngwyn, Llanrug. Cafodd 'trench fever' yn Rhagfyr 1916 a bu mewn ysbyty yn Chichester hyd Ebrill 1917. Trosglwyddwyd yn ddiweddarach i'r Labour Corps.

William Owen, 23 Margaret Street, Caernarfon. Brodor o Lanberis a oedd yn warden yng ngharchar Caernarfon ar ddechrau'r rhyfel. Bu'n 'bomb instructor' yn Winchester. Fe'i clwyfwyd ym mrwydr mametz a'i drosglwyddo i'r Labour Corps. Bu farw yn Ysbyty Bryn Seiont Ebrill 1921. Mae ganddo fedd milwrol ym mynwent Nant Peris. (Mae'n bosib mai fo ydi'r Sarjant yn eistedd o flaen Robert Hugh Evans yn y llun).

William Pierce Rowlands, 1 Llainwen Isaf, Llanberis. Wedi rhai misoedd yn y ffosydd, fe'i hanfonwyd yn ol i'r wlad hon yn dioddef o TB. Bu farw o'r salwch yn Chwefror 1917 yn 25 oed.

Richard Thomas Morgan, "Penllyn ger Llanrug". Lladdwyd ym Mai 1917 yn y ffosydd blaen. Mae'r cofnodion milwrol sydd ar gael yn ei ddangos fel Richard Thomas Morgan wedi ei eni yn Llanberis a'i gyfeiriad yn Penllyn near Llanrug. Credaf yn sicr mai fo ydi'r Richard Thomas a ry' gof golofn yn Llanberis o 8 Victoria Terrace.

Bechgyn ifanc a ymunodd a'r 14th Battalion yw'r rhain i gyd, a'r rhain sy'n cael eu cysylltu a'r 'Snowdonians'. Byddai rhestr o rai ymunodd a chatrawdau eraill yn hirfaith. Cysylltwch os oes rhai o'r uchod yn y lluniau.

Hywyn Williams (Deiniolen gynt).



Cydymdeimlo

Dydd

Mercher, Awst 14eg, yn ei gartref yn 8 Rhes Efrog, bu farw Ernest Owen. Estynnir ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Dyma gerdd dderbyniodd y teulu gan Dafydd Morris, Cefn Coch, er cof am ei ffrind:

Colli Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis

Llefaru a galaru
A glywn yn Llanber.
Teimpladau yn gwasgaru
Wrth gofio'r gŵr a'i ger,
Yn cerdded strydoedd Peris
O fore gwyn hyd nos,
Yn helpu yr anghenus
A chadw'r gerddi'n dlos.

Canolbwynt bywyd cadarn
Y cymwynaswr mawr
Oedd Eglwys Crist Sant Padarn,
A'r cartref bore'r wawr.
Mor ffodus cael adnabod
Hen gyfaill dynolryw.
Rwy'n fodlon iawn cydnabod
Fod o'n adnabod Duw.

ERNEST

Daeth newydd trist iawn i'r fro gyda marwolaeth Mr Ernest Owen o 8 Rhes Efrog, Llanberis, ar y 14eg o fis Awst.

Peth anodd os nad amhosib yw bod yn fyr wrth sôn am gymeriad mor grwn, llawn a hoffus. Fe erys y cof am byth amdano yn ei ddillad gwaith glas, ei hoff liw, y pen melyn a'r wyneb coch llawn gwen bob amser.

Mae'n amhosib sôn amdano heb ddechrau trwy sôn am y teulu mawr yr oedd yn rhan ohono. Rhaid mynd yn ôl dros gan mlynedd i ddyddiau cynnar y ganrif ddiwethaf. Wedi llafurio yn galed yn y chwarel trwy'r dydd fe aeth ei dad a dau ffrind am dro gyda'r nos o Nant Peris i westy Pen y Gwryd - taith o tua wyth milltir yn ôl ac ymlaen. Taith, ddigon posib, yn eu hesgidiau hoelion mawr a'u dillad gwaith. Datblygodd y daith i fod yn un garwrol gan i'r hogiau gyfarfod ac yna priodi tair chwaer o Gapel Curig a oedd yn gweinyddu yno. Yno y cyfarfu ei dad Thomas Owen ag Elizabeth Pritchard, neu Lizzie Fach Pen Gwryd, fel y cyfeiriai at ei fam ar adegau.

Priododd y ddau a symud i fyw i Lanberis ac yno ganwyd iddynt ddeuddeg o blant. Collwyd un ferch fach, Nesta, yn ei babandod. Ernest oedd yr ieuengaf ond un ac yn frawd bach iddynt oll ond i Ethel. Y fo ac Ethel oedd cywion y nyth ac yn gywion a ffrindiau agos iawn hyd y diwedd. Fe'i ganwyd yn Gelli Hirbant cyn symud, pan oedd yn ddwyflwydd oed, i rif 8 Rhes Efrog ble bu'n byw am dros 80 mlynedd. Roedd yn hynod o falch o'i fagwraeth ac yn siarad yn dda bob amser am ei rieni a'i aelwyd. Treuliodd ei blentyndod yn chwarae yn Parc Mawr a Pharc Bach ac roedd enwau fel y 'Bing', 'Cwt Bach', 'Pen Wal', 'Sgwâr', 'Siop yr Efail', 'Eglwys Bach' a 'Limbo' yn iaith yr aelwyd ar adeg pan oedd ei fam yn siopa yn Coed y Ddôl, sef hen enw ardal ei febyd am stryd fawr Llanberis.

Mynychodd Ysgol Dolbadarn ond amharodd yr Ail Ryfel Byd ar ei addysg a byddai'n sôn yn aml mai dim ond hanner addysg a gafodd - 'ysgol yn y bore, evacuees yn y prynhawn'.

Wedi gadael yr ysgol yn 14 oed aeth i weithio i siop y Co-operative yn Llanberis am gyfnod. Yna, wedi cyfnod yn y chwarel daeth y 'call up' ac ymunodd â chatrawd y 'Royal Welsh' gan wasanaethu yn Cyprus am gyfnod.

Dychwelodd adref ac yn fuan wedyn dechreuodd weithio ar yrfa hynod o lwyddiannus gyda MANWEB. Roedd o wrth ei fodd yn ei waith. Ei waith oedd ei bleser. Roedd yn hynod o brydlon a gyda'r cyntaf i'w waith a'r diwethaf i adael. Un o'i ddywediadau mawr oedd 'colli'r bore colli'r cwbl'. Gwaith caled a thrwm oedd gwaith y linesman, a olygai ar adegau, ddringo i ben polion bob awr o'r dydd a'r nos ym mhob tywydd i atgyweirio'r cyflenwad ar ein cyfer. Roedd yn un hynod o dachus a threfnus wrth ei waith. Roedd rhaid gwneud 'job dda'... doedd 'neith o'r tro' ddim digon da. Roedd rhaid gwneud popeth y ffordd iawn ac nid y ffordd arall.

Daeth tro ar fyd pan ddaeth yn amser i ymddeol o'r gwaith. Roedd yn gas ganddo segura ac roedd gwneud dim byd yn boen mawr iddo. Roedd arno ofn i un munud o'i amser fynd heibio heb iddo wneud ei ddyletswydd yn yr hen fyd yma. Dyma'r cyfnod pan y daeth treulio amser yn yr hen garej yng nghefn y cartref yn un o'i brif bleserau. Roedd y garej yn llawn o bob math o drugareddau. Taclau defnyddiol at ddefnydd - roedd yna bethau bach a phethau mawr hwylus. Roedd pob dim yn ei le yn dwt a thachus. Roedd yno fridge a stôf fechan, lle i wneud paned a hyd yn oed 'optics', os caf feiddio dweud. Tu ôl i'r garej roedd yna sied arall a thu ôl i honno roedd yna sied lai. Dros y ffordd i'r sied lai roedd yna sied arall a thu draw i honno roedd yna gwt ieir. Roedd rhaid agor drysau'r siediau bob bore i 'edrych oedd bob dim yn iawn' ac roedd rhaid glanhau a thwtio yn ddyddiol gyda'r brwsh bras, ei ffrind oes, mewn overdrive ar adegau. Dyma oedd ei baradwys.

Mae'n dasg gwbl amhosib rhestru ei gymwynasau i'w bentref a'i gymdogion. Rhoi biniau'r stryd allan, glanhau a thwtio'r llwybr cefn, glanhau landerau a llu o bethau eraill. Torri gwair bron yr holl stryd yn ystod misoedd yr haf. Roedd hyn yn gwbl ddi-dâl a'r pechod mwyaf oedd cynnig tâl am y gwaith.

Rhoddodd oes o lafur diflino i Eglwys Sant Padarn. Gwasanaethodd yno o'i grud i'r bedd. Cychwynnodd y daith, mae'n debyg, yn llaw ei rieni. Datblygodd hyn yn ddyletswydd ond erbyn y diwedd roedd gwasanaethu'r Eglwys yn bleser pur. Cydnabyddir ei dad fel Twm Owen y Clochydd ond roedd yna lawer mwy o ddyletswyddau na chanu'r gloch. Tydi Eglwys Sant Padarn ddim mor hen ag eglwysi cyfagos y clych. Y flwyddyn nesaf bydd yr eglwys yn dathlu ei phen-blwydd yn 130 oed a does yna ddim dwywaith fod y teulu yma wedi bod yn gofalu, addoli a gwasanaethu yno er ymhell dros gant o flynyddoedd. Roedd rhaid canu'r gloch chwe gwaith y Sul ar adegau, ac roedd rhaid dringo i entrychion tŵr yr eglwys i wneud hynny. Roedd rhaid i bob dim fod ar amser a dyma, mae'n debyg, ble y dysgodd gan ei dad i fod mor brydlon yn ei fywyd a'i ffordd trwy gydol ei oes.

Nid teulu ceffylau blaen oedd teulu Tom Owen ond yn hytrach y rhai oedd yn llenwi'r drol - pobol yr 'engine room' fel petai. Y bobol anhysbys rheini rydan ni i gyd yn eu cymryd yn ganiataol. Pan awn i addoldai ac adeiladau o'r fath does yna fawr neb yn gofyn pwy sydd yn cynnal y lle. Pawb am wybod pwy oedd yn cymryd rhan ond fawr neb yn gofyn pwy sydd yn agor y drws, pwy sydd yn cynnal y boeleri, pwy sydd yn glanhau'r landerau, pwy sydd yn newid y bylbiau a thorri gwair a glanhau tir yr eglwys. Dyna oedd Ernest a'i deulu yn ei wneud ac mae'r traddodiad yn parhau hyd heddiw gyda Dafydd, y mab, yn canu'r gloch. Pobol y gwneud ac nid pobol y dweud.

Mwynhaodd Ernest iechyd teg bron trwy gydol ei oes. Soniai yn aml fel yr oedd wedi cael 'run dda' yn ei fywyd. Arafodd y 'run dda' ychydig rai blynyddoedd yn ôl ac roedd rhaid defnyddio ffon gerdded. Mynnai, fodd bynnag, fynd allan i gerdded hyd y gallodd. Ei hoff daith fyddai o'r cartref ar hyd ffordd yr eglwys gan dorri ar draws trwy dir yr eglwys er mwyn 'edrych oedd bob dim yn iawn'. Galwai wedyn yn nhŷ ei chwaer Beti neu 'Beti'n chwaer' fel y'i galwai. Cyfeiriai hefyd at Kate fel 'Kate fy chwaer' ond yn y dyddiau olaf yn ôl enw'r teulu, sef Katie. Wedi rhoi'r byd yn ei le gydag Anti Beti cerddai tuag adref ar hyd y ffordd fawr i gyfeiriad Stesion Wyddfa ac yn ôl am adref heibio Ben Wal. Dyna oedd ei gylch filltir.

Bu'n aelod ffyddlon o bwyllgor Ras yr Wyddfa o'r cychwyn i'r diwedd. Roedd ei gefnogaeth a'i ymroddiad i'r ras yn un amhrisiadwy. Bu hefyd yn aelod llawn a ffyddlon o seindorf y pentref am flynyddoedd maith. Arafodd y 'run dda' yn fwy byth wedi'r Nadolig a daeth salwch digon blin i'w ran. Roedd rhaid treulio cyfnod yn Ward Alaw ac yna yn Ysbyty Eryri. Roedd ymhell allan o'i gynefin yn yr ysbyty a daeth rhyddhad mawr o lawenydd pan gafodd ddod adref i Number 8. Cafodd wasanaeth gwych gan 'y genod' fel y galwai nyrsys y gymuned a ofalodd amdano mor drylwyr. Ond, wrth gwrs, cafodd y gofal pennaf gan Nan i'r pen un. Cafodd Ernest a Nan dros 50 mlynedd o briodas tu hwnt o hapus a chywir. Ffyddlondeb a chariad pur i'r pen.

Cafodd hefyd gefnogaeth yr un mor ofalus a chariadus gan y plant, Anwen a Dafydd, ac yr oedd yn hynod o falch o gefnogaeth Helen a Dafydd. Roedd yn daid arbennig i Tomos, Ifan a Huw - y tri ohonynt wedi cael eu henwi ar ôl rhai o frodyr eu taid. Taid hwyliog, prysur a balch yn llawn hwyl. Pan oedd yn ifanc iawn dwi yn cofio Huw yn dweud wrtho 'uffar o ddyn da chi, taid' - o enau plant bychain yn de?

Mwynhaodd bob eiliad o'i fywyd. Teithiodd gyda Nan ddwywaith i Awstralia bell i weld ei chwaer, Nellie, a'r teulu. Un o'i ddywediadau mawr o oedd 'Cyfnewidiol ydyw dynion, siomedig yw ffrindiau'.

O ble daeth y dywediad dwi ddim yn siŵr ond doedd o ddim yn ddyn cyfnewidiol nac yn siomedig fel ffrind o bell.

Mae'r 'job dda' bellach wedi ei gwneud.

Gwnaeth 'job dda iawn' o fod yn ffyddlon i'w waith, 'job dda iawn' o fod yn ffyddlon i'w eglwys, ond yn bennaf fe wnaeth job dda iawn o fod yn ffyddlon a thriw i'w deulu.

'DA WAS DA A FFYDDLON'

Ken Jones Blaen Ddol

Diolch Dymuna Megan Owen, 59 Maes Padarn, ddiolch i’w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 95 oed ar Awst y 18fed.

Pen-blwydd Arbennig Dymuna Mattie Hughes, Glyder, 8 Ffordd Capel Coch ,ddatgan ei gwerthfawrogiad diffuant am y caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar Awst 22ain. Diolch o galon i’w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cyfarchion, rhoddion, a hefyd am y dymuniadau da i’r dyfodol.

Y Gymdeithas Undebol Bydd cyfarfod cyntaf y tymor o’r Gymdeithas Undebol yn Festri Capel Coch, Llanberis ar yr 8fed o Hydref am 7yh.

Cawn ein diddanu gan Treflyn, Ann a Rhys o ardal Porthmadog. Bydd lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Mae Rhaglen ddiddorol wedi ei pharatoi, tâl aelodaeth fydd £5.

Diolchiadau Dymuna Nan, Anwen, Dafydd a theulu’r diweddar Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn a llythyrau a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth, ac am y £3,500 o arian a fydd yn cael ei rannu rhwng Nyrsys Marie Currie a Hosbis yn y Cartref.

Diolch hefyd i’r Parch. Ddr. Carol Roberts am ei chefnogaeth yn ystod y misoedd olaf, ac i Canon Richard Jones, Canon Phillip Hughes a Canon Robert Townsend am eu presenoldeb yn y gwasanaeth.

Diolchir hefyd i Mr Gareth Jones am ei wasanaeth wrth yr organ, a Mr Gwynfor Jones am y trefnu trylwyr a pharchus.

Pen-blwydd Arbennig Dymuna Mona, 17 Dôl Eilian, ddiolch i bawb am y cardiau a’r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd.

Llongyfarchiadau i Mona, 17 Dôl Eilian, ar ddod yn hen nain unwaith eto, ar enedigaeth Ifan Emlyn.



Sbring-clinio ym mis Medi!

Dyna fu’r hanes ym mhentref Llanberis ganol y mis a hynny yn rhan o’r paratoadau i groesawu’r pedwerydd cymal o ras feics y “Tour of Britain” i’r ardal. Mae’r llun yn dangos y sbwriel a gasglwyd o un rhan fechan – rhyw 300 metr o hyd – rhwng y ffordd osgoi a glan y llyn. Ymhlith yr eitemau a gasglwyd roedd arwydd ffordd, arwydd gwyriad, arwyddbost, con, matres, olwyn a theiar car, top bwrdd, teils cae chwarae, giat bren, dau sach tywod, llond unarddeg bag sbwriel yn cynnwys degau o sachau baw cwn, clytiau babi, esgidiau, darnau o blastig, caniau a photeli a phob math o betheuach gwastraffus arall.

Pob clod i’r gweithwyr a’r gwirfoddolwyr a fu’n gweithio mor ddygn i ddacluso’r pentref ar gyfer yr ymweliad, OND, pe bai pawb yn gofalu am waredu eu gwastraff yn y modd cywir, fyddai dim angen gwneud hyn o gwbl.

Babi Newydd Yn ystod y mis diwethaf ganwyd mab bach o’r enw Llion i Sioned a Geraint, 3 Maes Eilian. Brawd i Hayley a’r diweddar Thomas ac mae Hayley yn meddwl y byd ohono. Llongyfarchiadau mawr iddynt ag obeithio y bydd iddynt gael nerth ac iechyd i’w fagu.

Y Ganolfan Erbyn hyn y mae pawb a phopeth wedi gadael y Ganolfan ac yn awr mae ar werth. Gresyn fod Menter Fachwen wedi gorfod gadael, gan ei bod yn braf eu gweld hyd yr ardal ac yn cael sgwrs hefo hwn ac arall ac wedi gwneud eu hunain yn gartrefol iawn yn ein plith. Amser a ddengys pwy ddaw yn eu lle.

Gorsaf Pleidleisio Bu i’n Cynghorydd, Elfed Williams, drio gael bwth pleidleisio symudol i fyny i Ddinorwig ar gyfer diwrnod etholiad ond oherwydd costau mae hyn yn hollol amhosibl. Felly mae gennyf ofn, os nad ydych wedi gofyn am bleidlais bost, fe fydd yn ofynnol ichwi fynd i Dŷ Elidir yn Neiniolen i bleidleisio. Yr wyf yn sicr ein bod yn ddiolchgar i’r Cynghorydd Elfed Williams am drio ei orau drosom fel ardal.

Hen Gapel MC Newyddion drwg iawn sydd gennym am

yr hen gapel, gan i gyfarfod cynllunio Gwynedd, er y llu gwrthwynebiadau gan y cymdogion, roi hawl cynllunio i fynd ymlaen â’r saith ystafell gysgu a fflat yn y capel. Bu i’r Cynghorwyr ar y pwyllgor cynllunio ddod i ymweld â’r safle ar yr 2il o Fedi, **ond yn Bron Elidir y bu iddynt barcio i gyd!** Tybed pam na fuasent yn mynd â’u ceir at y safle gan eu bod yn dweud fod digon o le i barcio yno? Mae’r ateb yn glir, ni oedd lle yno iddynt i gyd, mae hynny yn sicr!

Beth tybed fydd yn rhaid inni yn Bro Elidir wneud hefo’n ceir pan fydd y capel ar ei newydd wedd.

Yn yr Eco beth amser yn ôl bu i Rol Williams, Y Waunfawr, ddweud fod Dinorwig wedi gorffen oherwydd yr iaith. Hynny sydd wir, ond yn awr mae ein hetifeddiaeth yn mynd i estron hefyd.

Yn y stryd yr ydym yn gorfod dioddef parcio ceir ychwanegol o tai capel yn awr. Diddorol fydd gweld beth fydd yn digwydd pan fydd y capel ar ei newydd wedd. Efallai y bydd Cynghorwyr Plaid Cymru a Llafur mor garedig â rhoi cynllun parcio newydd i ni, Gymry’r ardal, sydd yn byw ym Mro Elidir!

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i’w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i’ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255



Caredigion Dinorwig.

Gan Meira Williams o Gwm y Glo y cefais weld yr hyn a ellir ei ddisgrifio fel ‘sash’ glas a melyn gyda bathodyn ac addurniadau wedi eu gwnio arno. Ar y bathodyn mae’r geiriau “Caredigion Dinorwig Sefydlwyd 1835.”

Mae’r dyddiad yn arwyddocaol. Dyma gyfnod pryd y sefydlwyd nifer o wahanol gymdeithasau elusennol led-led y wlad i warchod gweithwyr a ddioddefai gwaeledd neu ddamweiniau yn eu gwaith. Tybed a oedd hon yn gymdeithas a sefydlwyd gan chwarelwyr Dinorwig i’r fath bwrpas? Does dim son amdani gan Emyr Jones yn ei lyfrau cynhwysfawr ar hanes y chwarel – ‘Canrif y Chwarelwr’ a ‘Bargen Dinorwig’.

Roeddf amryw o gymdeithasau wedi eu sefydlu yn ein hardal ni tua’r cyfnod hwn – cymdeithasau cymedroldeb, dirwestol, Odyddion, Rechabiaid, ac yn y blaen, a phob pentref bron efo cangen o’r fath gymdeithas. Dyma hefyd y cyfnod pryd y sefydlwyd y mudiad cydweithredol (y Co-op), a dengys yr holl weithgaredd fel yr oedd y gweithwyr cyffredin yn ceisio gwella eu hamgylchiadau byw.

Beth am Gymdeithas Caredigion Dinorwig felly?

Daeth yr ateb yn nhraethawd buddugol Dewi Peris Jones ar Hanes Gwaen Gynfi yn 1868. Dyma sydd ganddo i’w ddweud: “... fe’i hadwaenir wrth yr enw Clwb Clwt y Bont. Sefydlwyd y gymdeithas hon Mawrth 31ain 1835. Bu adegau lled wan arni, ond mae yn awr yn un o’r rhai cryfaf yn y wlad, ac y mae cymaint o ieuenctid yn dylifo iddi yn barhaus, fel y mae gennym seiliau da i farnu fod iddi, er mor hen, oes hir iawn eto. Mae ei haelodau yn awr yn rhifo dros 400, ac yr oedd ei holl werth ariannol yn y flwyddyn 1867 yn cyrraedd i £864 -1-1. Bu amryw geisiadau i sefydlu cymdeithasau o’r un natur a hi yn yr ardal o dro i dro Ond ni fu rhyw lawer o lewyrch ar y naill na’r llall ohonynt.”

Mae’n ymddangos felly fod ‘sash’ un o gyn-swyddogion y gymdeithas ym meddiant Meira Williams.

Roedd cyfanswm o dros £800 yng nghoffrau’r gymdeithas yn 1867 yn gryn swm. Tybed beth ddigwyddodd i’r arian a pha bryd y diddymwyd y gymdeithas?

Peldroediwr yn mudo.

Tra’n pori drwy hen rifynnau’r Caernarvon and Denbigh Herald am 1912 deuthum ar draws y pwt byr hwn am William Pritchard, Cae Glas, Llanrug a oedd yn chwaraewr peldroed gyda thim Caernarfon United. (Dwn i ddim oedd yna dim yn cael ei alw’n Caernarfon Town bryd hynny). Cefnwyr de oedd ei safle yn y tim, a chwaraeodd ei gem olaf i Gaernarfon ar gae Coed Helen yn erbyn tim Bataliwn y RWF, cyn mudo am Ganada ym mis Gorffennaf. Oes rhywun efo mwy o wybodaeth amdano?

CHWILOTA

Parhad

Y Genhades o Lanberis.

Roedd Lena (Eleanor) Closs Jones yn fyfyrwraig yng Ngholeg Redcliffe, Chelsea yn 1911; coleg yn hyfforddi myfyrwyr ar gyfer galwedigaeth fel cenhadon dramor. Diolch i Eifion Roberts am y wybodaeth. Erbyn hyn mae’r coleg wedi ail-leoli i Gloucester. Cysylltais a hwy, ond yn anffodus, does ganddynt ddim cofnodion yn dyddio’n ol i’r cyfnod pan oeddent yn Llundain. Doedd ganddynt ‘chwaith ddim cofnodion am hynt a helynt cyn-fyfyrwyr a fu’n genhadon. Felly, mae llawer mwy o waith ymchwil angen ei wneud i hanes y genhades hon o Lanberis.

A dyna’r cyfan am y mis hwn. Anfonwch eich sylwadau neu ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffon: 01286 673515.

Problem gyda’ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Chwilio am anrheg Nadolig gwahanol?

Dyma gyfle i brynu copi DVD o unrhyw Eisteddfod Genedlaethol ers 1999, o gystadlaethau, seremonïau a chyngherddau'r Pafiliwn a gweithgareddau'r Babell Lân.

Archebwch cyn ddiwedd Hydref i sicrhau copi erbyn y Nadolig.

Pris cychwynnol – £15

01970 632 828
copi@llgc.org.uk
archif.com/copi

Hogia'r Hen Geir



Sefydlwyd yr 'Automobile Club of North Wales' yn 1982, ac y mae bellach yn hawlio 170 o aelodau ar draws gogledd Cymru o Nefyn i Wrecsam. Ac un o fro'r "Eco" yw Cadeirydd a Thrysorydd y Clwb, sef Berwyn Jones o Glwt y Bont sydd wedi bod yn arddangos ers blynnyddoedd. Ddechrau mis Medi trefnodd rali yn y Gilfach Ddu yn Llanberis. Daeth nifer dda o aelodau yno i arddangos, gan gynnwys un hen fws dybl-dec. Yn ogystal a Berwyn ei hun, mae nifer eraill o'r fro yn aelodau, ac yn arddangos yn rheolaidd. Yn y llun gwelir Merfyn Hughes, Llanrug gyda'i Wolseley 1500; Dafydd Hughes, Penisarwaun gyda'i Morris 1000; Jim Jones, Llanberis gyda'i Austin 7; Dennis Davies, Llanberis gyda'i MGB a Berwyn ei hun gyda'i Wolseley 6/80.

Mae Owen Griffith, Llanrug hefyd yn aelod, ond roedd yn methu bod yn bresennol yn Llanberis, ac yr oedd oddi cartref pan alwodd ein ffotograffydd i dynnu ei lun gyda'i Austin 7. Ond cawn ei hanes – a hanes y car – yn rhifyn nesaf yr "Eco".

Un sy'n dilyn ol troed ei dad yw Iwan Jones, mab Berwyn. Nid yw ond tair ar ddeg oed, ond mae eisoes wedi dechrau adnewyddu hen Fini yn dyddio o 1980. Mae rheolau'r Clwb yn ei wahardd rhag bod yn aelod nes bydd yn 17 oed – yn rhyfedd iawn, does dim rhaid bod yn berchennog hen gar i gael bod yn aelod! Pan alwodd gohebydd yr "Eco" i'w weld, roedd Iwan eisoes wedi tynnu injan y Mini ac yn brysus yn ei ddatgymalu er mwyn ei lanhau – a fo hefyd (gydag ychydig o gymorth gan ei dad) fydd yn gosod y cyfan yn ol gyda'i gilydd.

Arddangos mewn raliau yw prif ddiddordeb y Clwb, ac y mae galw mawr amdanynt mewn sioeau a ffeiriau led-led gogledd Cymru. Ond unwaith y flwyddyn mae'r Clwb yn cynnal eu harddangosfa eu hunain er mwyn codi arian i wahanol elusennau. Eleni, cynhaliwyd eu rali ar dir y Faenol, ger Bangor, a chasglwyd dros £1200 tuag at elusen Ambiwlans Awyr.

Tra bo ieuenctid fel Iwan yn ymddiddori mewn hanes a mecanwaith yr hen geir, bydd dyfodol y Clwb yn sicr.



“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Priif Ddisgyblion 2013/14

Etholwyd, gan eu cyfoedion, Beth Gaffey a Huw Owen, canol y llun, yn Brif Ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn ysgol 2013/14. Dymuna pawb yn nheulu Brynrefail y gorau oll iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau. Cânt gefnogaeth ddilys gan eu dirprwyon, sef Anna Wyn Jones, Dirprwy Brif Eneth ac Ian Darwood, Dirprwy Brif Fachgen.



Priif Eneth

Enw llawn: Bethan Heledd Gaffey
Yn hanu o: Bethel
Ysgol Gynradd: Bethel
Fy hoff beth: Cymdeithasu
Fy hoff raglen deledu: Hawaii 50
Fy hoff fiwsig: Popeth
Fy hoff fwyd: Spaghetti Bolognaise
Cas beth: Pobol anghwrtais



Priif Fachgen

Enw llawn: Huw Owen
Yn hanu o: Llanberis
Ysgol Gynradd: Dolbadarn
Fy hoff beth: Pêl-droed
Fy hoff raglen deledu: Top Gear / Clwb Malcs
Fy hoff fiwsig: Pob dim
Fy hoff fwyd: Chinese
Cas beth: Pre-season training

Ac Wele'n Cychwyn

Pedwar ar ddeg o fyfyrwyr dawnus a llwyddiannus dros ben ar eu gyrfa yn y chweched dosbarth. Pam dawnus a llwyddiannus? Wel, pan ddaeth canlyniadau arholiadau T.G.A.U. eleni yr oedd pob un wedi derbyn unai A* neu A ym mhob pwnc. Gwych!



Canlyniadau'r Arholiadau

Unwaith eto eleni bu llwyddiant aruthrol yng nghanlyniadau'r arholiadau lefel A gyda phob myfyriwr yn derbyn eu lle yn eu Prifysgol neu Goleg dewisedig. A bu dathlu croch hefyd o dderbyn canlyniadau T.G.A.U. gyda chanlyniadau amlwg. Yr oedd Mrs Elen Williams yn llawn gorfoledd wrth ddweud

“Mae'r ysgol yn falch iawn o berfformiad ein disgyblion yn yr arholiadau eleni. Dymunwn estyn llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a diolch hefyd i'r staff am eu gwaith, a'r rhieni am eu cefnogaeth.”



Dirprwy Brif Eneth

Enw llawn: Anna Wyn Jones
Yn hanu o: Llanrug
Ysgol Gynradd: Llanrug
Fy hoff beth: Cerddoriaeth
Fy hoff raglen deledu: Gwaith Cartref
Fy hoff fiwsig: Taylor Swift
Fy hoff fwyd: Pizza
Cas beth: Pryfed Cop



Dirprwy Brif Fachgen

Enw llawn: Ian Michael Darwood
Yn hanu o: Llanrug
Ysgol Gynradd: Llanrug
Fy hoff beth: Chwarae/gwylio pêl droed
Fy hoff raglen deledu: Match of the Day
Fy hoff fiwsig: Pob dim
Fy hoff fwyd: Byrger a Tships
Cas beth: Morgrug

LOTERI BRYNREFAIL

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ennill gwobrau diweddaraf Loteri'r ysgol - gwobrau ar eu ffordd yn fuan!

IONAWR:1. Nia Griffith; 2. Bethan Elis Jones.

CHWEFROR:1. D.L. Roberts; 2. Wendy Grail.

MAWRTH:1. Andy Bell; 2. Sally Burns.

EBRILL:1. Wendy Roberts; 2. Bethan Elis Jones.

MAI:1. Emma Roberts; 2. Pat Jones.

MEHEFIN:1. Rhianon Elis; 2. Emma Roberts.

Er eich gwybodaeth, 'Cyfeillion' yr ysgol sy'n rhedeg y Loteri fel rhan o'r gweithgareddau codi arian a'r bwriad yw cael mwy o sylw ar dudalen yr ysgol yn yr Eco er mwyn denu aelodau newydd i'r Gymdeithas a chael y neges drosodd i rieni ein bod yma i gefnogi'r ysgol.

Iona W. Thomas
Ysgrifennydd Cyfeillion



O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION GORFFENNAF 2013:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fawrth yr 16eg o Orffennaf, 2013 am 7 yr hwyr.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Barry Davies, Eurig Druce, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding (Cadeirydd),

Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.

Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Emlyn Baylis.

2 DATGAN BUDDIANT:

Barry Davies, (Cae'r Ddôl)

3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 18fed o Fehefin, 2013 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: Trystan Thomas/Olwen Gwilym.

4 MATERION YNCODI O'R COFNODION:

1. Defaid Crwydrol:

Y broblem yn llai ac yn fwy ysbeidiol. Y grid heb ei osod.

2. Cae'r Ddôl:

Trafodaeth bellach, a galw am gyfarfod a'r Cyngor Sir i drafod y mater.

3. Ffyrdd:

Adroddwyd bod rhan o'r brif ffordd yn Nantperis wedi cael wyneb newydd. Y gwaith yn dilyn gosod y bibell ddŵr newydd rai misoedd yn ôl.

4. Cofeb y Cadlanciau:

Adroddwyd bod trefniadau ar y gweill ar gyfer Gwasanaeth Coffa ger Cofeb y Cadlanciau ar lan Llyn Padarn. Mae ugain mlynedd ers y ddamwain hofrenydd lle collwyd tri a chynhelir gwasanaeth coffa ar ddydd Sul Awst yr 1 Ieg. Bydd staff Parc Padarn yn sicrhau llefydd digonol i barcio ar gyfer yr ymwelwyr a gofynnwyd i'r Clerc sicrhau bod y gofeb mewn cyflwr derbyniol.

5. Cae Chwarae Min y Llyn:

Adroddwyd bod y gwaith trwsio wedi ei gwblhau ar gost o dros £550.

5. GOHEBIAETH:

1. Morbegno:

Derbyniwyd llythyr yn holi a fyddai gan y Cyngor ddiddordeb cymeryd rhan mewn cynllun Ewropeaidd gyda Morbegno yr efeilldref i Lanberis. Byddai'r costau gweinyddol i gyd yn dod o gronfa Ewropeaidd. Cytunwyd mai da o beth fyddai dangos diddordeb. Gresynwyd nad anfonwyd y llythyr at y Clerc yn hytrach na'i gyflwyno'n ddirybudd i'r cyfarfod. Cynnig ac eilio: Trystan Thomas/Gwilym Evans. Roedd y gefnogaeth bron yn unfrydol.

2. APCE - Cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau eraill:

Derbyniwyd rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

3. Un Llais Cymru:

Derbyniwyd y rhifyn diweddaraf o Y Llais Rhifyn 23.

4. Cynghrair Cymunedau Cymraeg:

Daeth gwahoddiad i ymuno a'r corff uchod. Mae'r Gynghrair yn gorff newydd a sefydlwyd yn ddiweddar i sicrhau nad yw polisiau cenedlaethol/awdurdodau lleol yn tanseilio'r Gymraeg. Penderfynwyd gwahodd Menna Machreth, sef cydlynnydd y Gynghrair i gyfarfod nesaf y Cyngor.

6 CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

• C13/0635/15/LL - estyniad ail lawr i gefn yr eiddo - 13 Stryd Turner, Llanberis - dim sylw.

• C12/1451/15/LL - datblygiad cyfleuster storfa bwmp i gynnwys cronfa uchaf yn Chwarel Fawr gyda argae cysylltiol, adeilad yn cynnwys tyrbeini, gwaith peirianyddol cysylltiol, cronfa isel yng Nglynrhonwy gyda argae cysylltiol, adeilad yn cynnwys tyrbeini, gwaith peirianyddol cysylltiol gan gynnwys creu tomenni llechi newydd a gwyro priffyrdd - Safle Glynrhonwy, Llanberis - dim sylw pellach.

2. APCE:

NP3/15/E212 - ymgynghoriad o dan Rhan 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i godi gwifren drydan 11kv uwchben - tir ger Weirglodd Ddu, Nantperis - dim sylw.

7 MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Fehefin 2013 -

Cyfrif Cyfredol: £13,716.53 Cyfrif Cadw: £5,331.17

b) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:

202033 Evan Thomas [Cae UEFA - Gorff/Awst] 80.00

202034 Richard Jones [Gofal Cysgodfannau - Gorff/Awst] 100.00

202035 D Wyn Lewis [T Gwair Myn yr Eglwys a Llwybrau] 690.00 202036

D Wyn Lewis [T Gwair Mynwent a Parc Bach] 185.00

202037 HMRC [Treth Incwm - Ebr - Mehefin] 137.40

202038 Ras yr Wyddfa a Ras y Plant [1000 a 300] 1300.00

202039 Carnifal Nantperis 300.00

202040 Cyngor Gwynedd [Trwsio Offer Cae Chwarae] 576.00

202041 Jacky McMahon [Garddio] 251.25

CYFANSWM: 3,619.65

c) Arian a dderbyniwyd rhwng 28/05/2013 a 28/06/2013:

Dyddiad	Tarddiad	Swm
04 Meh	Mynwent	100.00
17 Mai	Mynwent	100.00
13 Meh	Mynwent	120.00
13 Meh	Angladd	80.00
20 Meh	Ailosod Carreg	60.00
28 Meh	Llôg	0.26

CYFANSWM: 460.26

8 Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:

Y Fynwent:

Adroddwyd bod carreg i ddal blodau ar ganol bedd. Byddai angen ei symud.

Llwybrau:

Adroddwyd bod giat ar ben steps ger Tydyyn Siarl oddi ar ei bachau. Mae angen arwydd ar y llwybr sy'n arwain o ymyl y Rhaeadr hebio Mur Mawr i Hafod Lydan, ac adroddwyd bod arwydd 'No Right of Way' wedi ymddangos ger Pyllau Dwr. Hefyd mae angen edrych ar gyflwr y llwybr o Bron Eryri i Coed Mawr.

Adroddwyd bod glaswellt y llwybrau wedi ei dorri, os oedd rhywle arall angen sylw, dylid rhoi gwybod i'r Clerc.

Cysgodfannau Bws:

Adroddwyd iddynt gael eu paentio, ond roedd amryw yn anhapus gyda'r lliw. Penderfynwyd eu gadael ond dewis lliw mwy addas y tro nesaf.

Cynnig ac eilio: Trystan Thomas/Gwenda Roberts

9 ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL LLE BU CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR

1. Fforwm y Llyn:

Yn ôl y Clerc a fu mewn cyfarfod diweddar o Fforwm Llyn Padarn mae Dŵr Cymru (DC) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cydnabod i'r algae gwyrdd a gafwyd yn 2009 (ac a fu'n gyfrifol am atal defnydd o'r llyn) ddod oherwydd elifant o waith carthffosiaeth Llanberis. Ers hynny mae safon y dŵr wedi gwella yn aruthrol yn sgil gwaith sylweddol a chostus a wnaed yn y gwaith carthffosiaeth. Mae mwy o waith i'w wneud eto ac fe fydd cwmni First Hydro (FH) hefyd yn gwella cynefin y pysgod yn Afon y Bala. Mai'n ymddangos yn bur anhebyg erbyn hyn y bydd gwaith carthffosiaeth newydd yn cael ei adeiladu ym Mrynrefail ar gyfer Llanberis a'r pentre hwnnw. Yn ôl DC 'does dim safle wedi ei ddarganfod hyd yma ac fe fydd hi'n anodd cyfiawnhau buddsoddiad o rhwng deg a phymtheg miliwn o bunnau gan fod safon y dŵr yn Llyn Padarn wedi gwella cymaint ac yn dal i wella o hyd. Mae lefelau ffosffat i lawr i'r hyn a ddisgwyliar, ond rhybuddwyd bod llifogydd yn dilyn glaw trwm, er yn llai problemus nag a fu, yn dal yn broblem fawr a bod llawer gormod o bethau anymunol yn mynd i mewn i'r llyn bryd hynny.

Adroddwyd bod 15 mil o wyau torgoch mewn deorfa a bod rhai pysgod eisioes wedi eu rhyddhau i'r llyn.

Adroddwyd nad oedd CNC yn debyg o erlyn DC am yr holl elifant anghyfreithlon a aeth i'r llyn.

Ategwyd y teimlad o rwystredigaeth a fynegwyd gan gynrychiolwyr y Clwb Pysgota a'r Clerc gan Alun Ffred Jones AC. Er bod safon y dŵr yn well mae'n ymddangos nad oes neb i ateb am yr hyn a ddigwyddodd a hyd yma chafwyd dim ateb i'r broblem llifogydd hyd oed os yw'r gwaith carthffosiaeth bron a chyrraedd safon derbyniol ar ôl gwariant o £2.5m.

Mae pwysau pellach ar First Hydro i wella cyflwr yr afon a sicrhau gwell cynefin i'r torgoch gladdu ei wyau. Credir y bydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau erbyn canol Hydref.

Yn mis Medi mae bwriad i gynnal arddangosfa o'r hyn a wnaed dros y 4 blynedd olaf ac i geisio cefnogaeth leol i'r ymgyrch i 'wella a charu'r llyn'. Mae'r pysgotwyr hefyd yn pwyso am gynllun cadarn i gael y pysgod yn ôl fel roeddynt.

Adroddwyd bod cryn waith wedi ei wneud i geisio cael busnesau ac eraill i ddefnyddio sebonau sydd a llai o gemegolion megis ffosffat ynddynt. Beirniadwyd yr ymgyrch, gan un, am beidio dweud fod y llyn wedi ei lygru, ond fel ateb dywedwyd bod yr ymgyrch yn canolbwyntio ar agweddau mwy cadarnhaol, yn hytrach na negyddol.

Pwysleisiodd eraill bod angen cydnabod y camgymeriadau a'r methiannau a fu a'r ffaith bod Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA/SSSI) wedi ei lygru a'i ddifetha ac nad oedd neb wedi ei alw i gyfrif. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Hydref.

10 CYFARFOD NESAF:

Medi y 10fed, 2013,

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gyfarfod y 3ydd o Fedi 2013.

Materion o'r cofnodion

Gwefan i'r Cyngor. Cyflwynwyd llythyr Gwynedd yn cynnig dau opsiwn ar gyfer sefydlu gwefan a phenderfynwyd cael mwy o wybodaeth fel:

Oes rheol neu ddeddf yn gorfodi Cyngor Cymuned i baratoi gwefan? Os oes, pa un?

Pe bawn yn derbyn Opsiwn 2. beth fyddai'r gost ar ôl y flwyddyn gyntaf?

Oes ymateb hyd yn hyn, oddi wrth Cymunedau eraill Arfon/Gwynedd?

Beth fyddai'r manteision i'r Cyngor o gael gwefan?

Amlygwyd pryder ynglŷn â dwyieithrwydd, polisi'r Cyngor yma yw gweithredu'n uniongyrchol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Penderfynwyd cyfarfod eto ar y 24ain o Fedi ar ôl derbyn atebion i'w hystyried gan bod rhaid ateb erbyn 30ain o Fedi i fanteisio ar grant o £500 gan Lywodraeth Cymru

Materion Prifffyrdd. Cyflwynwyd ateb Meirion Williams, Cyngor Gwynedd:

1. Wyneb anti-skid cylchfan Tŷ Mawr – wedi ei wneud.
2. Wyneb anti-skid ger Groeslon Uchaf – Gwynedd i gadw golwg arno yn ystod eu harolygon diogelwch.
3. Effaith torri gwair ar wyliau dŵr wyneb – gofyn a'i gwliaw gwledig neu o fewn pentrefi sy'n llenwi.
4. Gwli rhwng Trem Eilian a'r ffordd fawr – wedi ei glanhau.
5. Eryri, Penisa'rwaun – ni all Adran Cynllunio Gwynedd orfodi'r perchennog i atgyweirio'r ffos, bydd y gang gymunedol yn glanhau'r ffos y naill ochr i'r fynedfa yn rheolaidd.
6. Culni Ffordd Winllan – dim cyllid ar hyn o bryd i bibellu'r ffos.
7. Llifogydd ffordd Pen y Bont, Deiniolen – mae cynllun wedi ei ddylunio a chyfarwyddyd gwaith wedi ei godi ar gyfer pibellu a chau'r ffos.

Ymateb y Cyngor – llythyr i Wynedd:

3. mae angen glanhau yr holl wyliau a ffosydd sydd wedi cau cyn y gaeaf

6. pryd fydd y gwaith yma yn debygol o gael ei wneud?

7. oes modd cael dyddiad dechrau'r gwaith yma?

Cofebion Rhyfel, Macpella. Dywedodd y Clerc ei fod yn dal i ddisgwyl prisiau.

Blychau baw cŵn. Derbyniwyd dau gynllun yn ôl yn dangos lleoliadau ar gyfer blychau, y naill gan Phyllis Ellis, Penisa'rwaun, ar llall gan Carolyn Roberts, Brynrefail. Y Clerc i'w danfon ymlaen i Peter Simpson, Gwynedd.

Gohebiaethau a materion eraill

Sustem unffordd trwy bentref Brynrefail. Gwynedd yn ymgynghori

â holl breswylwyr y pentref ac yn cynnal arddangosfa yn y CABAN am 4.00 ar 9ed o Fedi.

Penisa'rwaun (Aled Green)

• **Weirglodd Las**, y rheswm am y broblem dŵr wyneb yno yw pibell fawr yn cysylltu â phibell lai – llythyr i Wynedd

• **Ffordd heibio'r cae chwarae**, – yr anawsterau yno yn gwaethygu oherwydd ceir yn parcio. Gallai hyn achosi argyfwng pe bai angen am ambiwlans i gyfeiriad Rhos Wian – llythyr eto i Wynedd i ofyn pryd y gwneir rhywbeth ynglŷn â hyn.

• **20 mya.** Gofyn i Wynedd pryd y gosodir y cyfyngder gyrru heibio i'r ysgol.

• **Llwybr - Rhos Wian heibio i'r Eglwys**, mae'r ddeiseb i Wynedd bron yn barod.

Brynrefail. Cyfeiriodd Carolyn Roberts at waith patsio a wnaed ar hyd y ffordd heibio'r cae chwarae a'i fod yn ofnadwy o anwastad – gofyn i Wynedd ail wynebu'r ffordd. Hefyd bod tyfiant yn amharu ar y golau cyhoeddus yn y ffordd at Trem Eilian – cwyn i'r Adran Oleuo.

Maes Eilian, Dinorwig. Dywedodd Hefin Williams bod oglau carthffosiaeth yn dod o du cefn i'r lloches bws – llythyr i Adran Iechyd Gwynedd.

Lôn Garet, Dinorwig. Cyfeiriodd Idris Thomas at y gât fawr ym mhen ucha'r ffordd, gan nad oes modd ei hagor mae cerddwyr yn dringo trosti – gofyn i 1st Hydro a fuasent yn ystyried gosod gât mochyn neu ryw fath arall o fynediad yno. Ychwanegwyd y gellid cael gât felly am ddim gan Wynedd.

Blwch postio Tan Gaer. Cyfeiriodd Phyllis Ellis at yr holl ohebu ynglŷn â hyn ac awgrymu lythyr eto at y Post Brenhinol i ofyn am ateb pendant.

Canolfan Dinorwig. Dywedodd Phyllis Ellis mai'r ganolfan oedd safle pleidleisio Dinorwig ac awgrymodd ofyn i Swyddfa Etholiad Gwynedd a oes modd defnyddio ystafell mewn tŷ yn ystod etholiad i arbed i trigolion orfod teithio i Ddeiniolen.

Post Clwt y Bont. Ers i'r post gau mae'r blwch postio wedi diflannu oddi yno – llythyr i'r Post Brenhinol i ofyn ym mhle fydd y blwch newydd a phryd y'i gosodir

Cynllunio

Tai newydd dros y ffordd i'r ysgol, Deiniolen. Dywedodd Idris Thomas mai dim ond un o'r wyth tŷ sydd wedi ei werthu a bod sôn y mabwysiedir chwech ohonynt gan Wynedd fel tai Cyngor. Pam codi tai os nad oes angen lleol, gan gyfeirio hefyd at y bwriad o 27 tŷ ger Rhes Fictoria. Ychwanegodd Elfed Williams y bydd cais am 17 arall yn Rhiw Goch. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith mai Swyddogion Gwynedd sy'n penderfynu yn hytrach na gwrando ar farn aelodau lleol. Pam cael aelodau o bellteroedd fel Bala, Pwllheli a Choris i ymweld â safleoedd ceisiadau cynllunio Llanddeiniolen? Gwrthwynebwyd llawer cais gan ieuenctid lleol am eu bod y tu allan i ffin y Cynllun Unedol. Un o resymau'r trigolion i wrthwynebu caniatau fflatiau yng Nghapel Dinorwig oedd nad oes lle parcio yno. Dywedodd y Swyddogion nad oedd hynny yn anhawster a gadael eu ceir eu hunain ger Bro Elidir a cherdde i ymweld â'r safle!

Penderfynwyd anfon llythyr ynglŷn â hyn at Mr Aled Davies, Prif Swyddog Cynllunio, Gwynedd.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Gors Bach, codi anecs ar gyfer person anabl

43. Bro Eglwys, Bethel – codi estyniad to fflat.

3, Gwêl y Mynydd, Stad Macpela, Clwt y Bont – dymchwel modurdy a chodi un newydd gyda storfa uwch ei ben a lolfa haul.

Llwyddiannau yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Penderfynwyd llongyfarch y canlynol:

Seindorf Arian Deiniolen, arennilly Bencampwriaeth Genedlaethol Lois Eifion, Penisa'rwaun, am arwain y seindorf

Bet Jones, Rhiwlas - Gwobr Goffa Daniel Owen (Craciau)

Catrin Griffith, Deiniolen - Unawd piano

Magi Tudur, Penisa'rwaun - Monolog

Lindsey Fleming, Deiniolen - Unawd lieder

Elfed Morgan Morris, Deiniolen - Rhan o'r ddeuawd gerdd dant fuddugol

Annette Bryn Parry a Malcolm Allen, Deiniolen, ar gael eu hurddo yn aelodau o'r Orsedd.

BOSCH Service
Car Service

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**



Apêl Motor Niwron Ar ddydd Sadwrn, Awst 31, fe aeth Melfyn, Leah a Caryl Jones, 21 Rhos Rug ar Daith Gerdded Noddedig i gopa'r Wyddfa. Pwrpas y daith oedd i godi ymwybyddiaeth ac arian i Gronfa Clefyd Motor Niwron, cangen Ynys Môn a Gwynedd. Roedd oddeutu 25 o deulu a ffrindiau ar y daith hefyd. Fe gawsant groeso cynnes yn Caffi Steffan a'r Caffi Hanner Ffordd. Hyd yn hyn maent wedi casglu tua £1,000 ac os hoffai unrhyw un gyfrannu ymhellach at yr achos, cysylltwch â Sioned Jones, 21 Rhos Rug, Llanrug. Diolch o galon i bawb a gerddodd ar y diwrnod.

YMDDIHEURIADAU Dylai'r geiriau o ddiolch gan y ddau deulu canlynol fod wedi ymddangos yn rhifyn Gorffennaf o'r Eco. Ymddiheurwn yn fawr am hyn.

Dymuna Sian Tulliver, Sion a'r teulu, Bron Wenda, ddiolch o galon i bawb am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iddynt. Carent ddiolch i'r gofalgwyr am eu cefnogaeth iddi ac i Dr. Esyllt o Feddygfa Waunfawr am ei charedigrwydd a'i holl ofal ohoni yn ystod ei gwaeledd.

Diolch Yn yr un modd, mae Mary a John Roberts, Bedw Gwynion a'r teulu yn dymuno diolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt pan gollwyd Mrs. Rosie Evans, mam Mary, ym mis Mehefin. Maent yn gwerthfawrogi'r gofal arbennig a gafodd Mrs. Evans yng Ngherrig yr Afon, y Felinheli.

Ysgol Gynradd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol

newydd dymunwn groesawu'r holl ddisgyblion yn ôl i'r ysgol - yn enwedig disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Braf dweud eu bod i gyd wedi setlo ac yn mwynhau eu hunain yn yr ysgol. Dymunwn hefyd groesawu aelodau newydd i staff yr ysgol sef Mrs Medwen Griffith, Miss Sian Williams a Miss Rhian Morris. Gobeithiwn y bydd y dair yn hapus iawn acw.

Dymunwn, fel ysgol, longyfarch Mrs Nia Edwards a'r teulu ar enedigaeth merch fach - Beca Non. Pob dymuniad da iddynt oll.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 fwynhau ymweliad â Phlas Menai ar ddechrau'r tymor. Cawsant lawer o hwyl ar y wal ddringo ac yn canwio.

Aeth disgyblion blwyddyn 6 i aros yng Nglân Llyn. Cawsant amser da yn canwio, rhwyfo, adeiladu rafft, chwarae bowllo 10 ac yn mynd ar daith at y llyn. Dechrau da i flwyddyn ysgol newydd.

Merched y Wawr Nos Fawrth,

Medi'r 10fed, estynnwyd croeso cynnes iawn i nifer dda o aelodau yn cynnwys aelodau newydd gan y Llywydd, Nan Humphreys. Cychwynwyd y noson drwy ganu Cân y Mudiad. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau ac edrychir ymlaen at eu gweld yn y cyfarfod nesaf. Braf gweld Eirian ac Ann yn bresennol wedi eu triniaethau yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Urien a Rhian, mab Heulwen a Deiniol, ar achlysur eu priodas yn Rhydaman. Wedi'r melyster daeth y chwerwder a chydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu Heulwen a Deiniol o golli tad Deiniol, sef John Llywelyn, a nai iddo, sef Huw, mab Sioned ac yntau ond ugain oed.

Llongyfarchwyd holl ieuenctid y fro ar eu llwyddiannau arholiadol. Llongyfarchiadau hefyd i Margaret a Geraint ar ddod yn nain a thaid balch i Neli, merch fach Iwan a Gweno a chwaer fach i Now. Gyda balchder y llongyfarchwyd tîm Rhanbarth Arfon yn Llanellwedd, gyda chanmoliaeth uchel i deisennau Aberffraw Linda a thlysau bendigedig Phyllis.

Yn dilyn 'Distawrwydd Noddedig' llwyddwyd i godi dros £2,000 tuag at elusen Clit a diolchir i Mair a Margaret Parry am eu cefnogaeth bob blwyddyn.

Hydref 15 cynhelir 'Diwrnod Shwmae, Su' Mae - Rho gynnig arni! - cyfle i atgyfnerthu a dathlu'r Gymraeg a'r ffyrdd y byddwn ni'n cyfarch ein gilydd yn Gymraeg yn ein cymunedau - yn y siop, y Ganolfan Hamdden, y gwaith ayyb. Gellir cynnal bore coffi, cynnal awr o sgwrsio yn y Gymraeg, amser cinio neu dros

baned mewn caffi lleol. Am syniadau dilyner <https://www.facebook.com/mudiadau?fref=ts> neu cysyllter â Gaynor Jones, Swyddog Gweinyddol Mudiadau Dathlu'r Gymraeg ar: gaynorjones@dathlu.org neu 07854171165. Cofier 'Gennym ni, bobl Cymru, mae'r grym i gadw'r Gymraeg yn fyw a gallwn fod yn rhan o'r daith o'r eiliad y byddwn yn dweud, 'shwmae' neu 'su' mae' neu 'sut wyt ti?' ar ddechrau sgwrs.

Gwraig wadd y noson oedd Mari Gwilym, wyneb a llais cyfarwydd, un a fagwyd yn Nyffryn Nantlle a dylanwad yr ardal honno yn ddwfn ar ei magwraeth. Testun y noson oedd 'Yr Ysfa Ddoniol' a do, fe gafwyd noson hwyliog ganddi yn olrhain ei throeon trwstan. Yn ôl adolygiad Lyn Ebeneser o'i llyfr Melysymbolfa Mari yn y Cymro 'Straeon wedi'u sbarduno gan deulu, ffrindiau a phrofiadau' sydd ganddi, gan 'godi gwên ond gyda cheiniogwerth o ddwyyster yma ac acw'.

Roedd dawn ddihafal Mari i ddweud stori yn ffisig i'r galon ac, yn ôl Caniadau Solomon, dyfynnai 'Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth' neu yn yr iaith fain 'laugh and grow fat' - dyna wna Mari, gweld y byd drwy ddoniolwch. Diolchwyd iddi gan ei ffrind, Meryl Green, a bu'r dwy yn hel atgofion dros baned wedi'r orig ffraeth.

Enillydd y raffl oedd Carrie a diolchwyd i Olwen, Linda, Menna ac Avril am ofalu am y baned. Genod Penisarwaun fydd â gofal o'r baned a'r raffl ym mis Tachwedd.

Dalier Sylw - Hydref 9fed ar nos Fercher byddwn yn ymweld â'r Cwrt yng Nghaernarfon. Gwelwn chi yno!

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS RHIWLAS

(01248) 361044



GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored ac hefyd Stôf goed a "Multi Fuel" Aga/Rayburn- Olew/Nwy Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones (01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYD LLOYD



Priodas Aur Llongyfarchiadau i Mary a Meurig Parry, Wenllys, Gwêl Fynydd, ar achlysur eu **Priodas Aur** ar Hydref Sed. Pob bendith a llawer o gariad gan Dwynwen a Steven, Tudur ac Ella, Gareth a Parvez a'r wyron a'r wyresau a'r teulu i gyd.

Diolchiadau Dymuna Lilian a Dafydd Roberts, Glanffynnon a'u teuluoedd yn yr Alban ac yma ddiolch i'w cyfeillion a chymdogion, yn arbennig i Eirian a Sioned, am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniant yn eu profedigaeth o golli Gwyn yn frawychus o sydyn yn yr Alban. Gŵr, tad, mab a brawd hynod o annwyl. Diolch hefyd am y cyfraniadau at Ymchwil Canser y Prostad sydd bellach dros £3,000. Diolch o galon i chwi i gyd.

Marwolaeth Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu Mair Roberts, Glasgoed Hall, yn dilyn ei marwolaeth yn 73 mlwydd oed. Cofiwn at ei gŵr, Derrick, y plant Linda a Martin a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn â Mrs Katie Owen, 8 Hafan Elan, yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei brawd annwyl yn Llanberis, sef Ernest Owen. Cydymdeimlwn â'r teulu yma yn Llanrug a Llanberis.

Gwellhad Buan Wedi llawdriniaeth eto yn Ysbyty Gwynedd, daeth Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, gartref. Dymunwn wellhad buan iddi.

Tra yn yr ysbyty, cafodd brofedigaeth, bu farw ei hunig chwaer, Rowena, yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn â chi yn awr.

Mae Mrs Mai Parry, Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon hefyd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac yn awr yn prysuro

i wella. Cofion gorau atoch.

Profedigaeth Yn ddiweddar bu farw mam Ann Davies a Gordon, 10 Bryn Moelyn, Mrs Jennie Melfyn Jones. Roedd yn frodor o Nant Peris ond wedi cartrefu yng Nghaernarfon ar ôl priodi. Cydymdeimlwn â chwi eich dau a'ch plant a'u teuluoedd. Bydd yn golled fawr i chi i gyd.

Croeso Gartref o'r ysbyty i Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan. Brysiwch wella, Katie!

Hefyd cafodd Mrs Mona Griffiths, 2 Hafan Elan, ddamwain ond deallwn ei bod yn gwella yn araf.

Babi **Newydd** Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Gwenno, Stad Minffordd, ar enedigaeth merch fach, Neli, chwaer i Now Ifan a wyres i Geraint a Margaret Parry.

Diolchiadau Fe ddymuna Nellie Cullen, Bro Rhyddallt, ddiolch o waelod calon i'r merched a Dewi, y glanhawyr, yn Ysgol Brynrefail am eu caredigrwydd yn darparu Parti 'Syrpreis' iddi ar achlysur ei hymddeoliad ddiwedd y tymor. Diolch hefyd am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Bydd yn eich colli yn arw!

Capel y Rhos

Priodas Ar Fedi 14eg, priodwyd Steven a Sarah Jones, 13 Bro Rhythallt. Gweinyddwyd gan y Parch Marcus Wyn Robinson, y gweinidog a'r organydd oedd Mrs. Lowri Prys Roberts-Williams. Dymunwn bob bendith ac hapusrwydd i'r pâr priod.

Anfonwn ein cofion gorau at Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli gan ddymuno gwellhad buan iddi. Rydym yn colli ei gweld hi a'i phriod, Mr Alf Parry, yn y sedd gefn ar fore Sul. Mae Mai yn cael y gofal gorau bosib gan Alf a gobeithio y gwelwn hwy yn ôl



Cyflwyno sic

Casglodd Pwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon dros £1,700 i fudiad CLIC sef i blant Môn ac Arfon sy'n dioddef o Gancr neu Liwcimia. Dyma Valerie Jones Griffiths (trysorydd) a Mair Lloyd Hughes (Cadeirydd yn cyflwyno'r sic i Nysrs Eleri Fôn Roberts sy'n gwneud gwaith arbennig iawn gyda'r bobl ifanc hyn.

hefo ni yn fuan.

Cylch Meithrin Bydd y Bêl Bonws yn ail ddechrau ar Hydref Sed. Mrs Gwen Edwards (Anti Gwen yn y cylch) fydd yn casglu'r arian eleni. Mae nifer dda am barhau i fod yn aelodau, ond mae nifer o rifau gwag ar gael. £1 yr wythnos fydd y gost, felly beth am gefnogi?

Cysylltwch â Gwen yn y Cylch Meithrin i gael eich rhif.

Diolch Dymuna Carrie Owen, Tŷ Fry, ddiolch yn ddiffuant iawn i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati pan yn dathlu ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed.


Diolch. Dymuna Dora Roberts, Tan y Coed, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'u caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

Y Sefydliad Coffa Clwb cant

- Ennillwyr Mis Awst
 1..Mrs M Roberts, 7 Afon Rhos
 2..Arthur Jones, 12 Hafan Elan
 3..Elen Roberts, 7 Afon Rhos
Plaid Cymru
 Clwb Cant Mis Medi
 1..Vera Williams, Awelon
 2..Gwenda Roberts, Hafle

Oedfaon mis Hydref

- Hydref 6 – Y gweinidog Y Parch. Marcus W Robinson
 Hydref 13 – Mr. Dafydd Iwan
 Hydref 20 – Y gweinidog. Cynhelir y gwasanaeth Diolchgarwch.
 Hydref 27 – Parch. W.R Williams



J.M. JONES
 a'i Feibion
 LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
 01286 672898

Cartref
 01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



- ★ Gwerthwr Glo
 - ★ Olew Gwres Canolog
- i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

YSGOL GYMUNED PENISARWAUN

Croeso Croesawyd 7 o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin. Mae Megan, Simone, Nel, Lois, Math, Macs ac Efan wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith.

Croesawn Miss Megan Jones fel Cymhorthydd yn nosbarth 5 a 6, Mrs Sharon Jones fel Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen, a Mrs Sam Williams fydd yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos yn CA2 fel rhan o'i chwrs Coleg. Mae'r ysgol hefyd yn falch o gael croesawu ein Glanhawr a Gofalwr newydd, sef Mr Huw Trefor Williams, sydd wedi setlo i mewn i'w swydd newydd ar ei union.

Pob Lwc! Dyna ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail.

Gwersi Nofio Mae 33 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5, a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau. Mae pawb yn mwynhau.

Gwersi Offerynnol Mae 16 o blant yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.

Bore Coffi Apêl Macmillan Cynhelir bore coffi yn Neuadd yr Ysgol bore dydd Gwener, Medi 27ain, gyda'r elw yn mynd tuag at yr apêl uchod. Mae croeso i unrhyw un o'r Gymuned alw draw rhwng 10.30 a 11.30 i gael paned a bisgedi a sgwrs.

Cynllun Sbarci a Fflic Mae plant yr ysgol wedi bod yn brysur iawn yn lleihau ein defnydd o ynni dros y flwyddyn ddiwethaf fel rhan o'r cynllun ac wedi llwyddo i ostwng ein defnydd o ynni o 9.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Da iawn chi!

Yr Urdd Mae nifer o'r plant wedi ymaelodi am y flwyddyn 2013-14. Bydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn ar ôl y Nadolig.

Tynnu Lluniau Bydd Mr Gwynant Parri yn yr Ysgol bore dydd Mawrth, Tachwedd 12fed, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw un sydd heb blant yn yr Ysgol alw draw os dymunant.

Arolwg Bu arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol ym Mehefin ac fe gafodd yr ysgol adroddiad arbennig o dda yn dilyn eu hymweliad. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd hefo cysylltiad â'r ysgol.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Gorffennaf oedd Mrs Beryl Roberts, Raca, gyda rhif 37, a mis Awst oedd Mrs Ann Paterson, 1 Bryn Tirion, gyda rhif 48. Llongyfarchiadau.

Diolch Dymuna Sioned a Tirion ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn genedigaeth eu mab bychan, Noa Jac ar Awst 27ain, brawd bach i Efan Jac ac ŵyr bach arall i Rhian a Cefin a Liz a Gil.

Trip Siopa Nadolig Bydd bws yn cychwyn o Benisarwaun am 7:30 bore Sadwrn, Rhagfyr 7fed, i Lerpwl, gwely a brecwast yn y Novotel a chychwyn adref pnawn Sul am 4 o'r gloch. Pris £70. Mae ychydig o le ar ôl ar y bws os oes gan rywun ddiddordeb. Cysylltwch â Jean (881993) neu Liz (872421).

Diolch yn awr Hoffai Nani Evans, 26 Bryntirion, ddiolch yn fawr iawn i'w chymdogion, ei ffrindiau a'i theulu i gyd am bob help a charedigrwydd a dderbyniodd ar ôl syrthio, ac wedi dod o'r ysbyty. Diolch yn fawr.

Priodas Dydd Sadwrn, Awst 24ain, yn Eglwys San Mihangel, Rhydaman, priodwyd Urien Deiniol. gynt o Bryn Eglwys ag Rhian Gregory o Saron, Rhydaman. Cafwyd diwrnod bendigedig a'r haul yn gwenu ar y fodrwy drwy'r dydd. Roedd y wledd briodas yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r pâr ifanc sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Diolch Dymuna Urien a Rhian ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a'u holl ffrindiau am y dymuniadau gorau, y cardiau a'r holl roddion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i chi gyd.

Priodas Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhian a Kelvin, 3 Bryn Eglwys, a briodwyd ar Orffennaf 27ain yn Eglwys y Santes Helen.

Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch. Ddr Carol Roberts, Llanberis a'r organyddes oedd Lowri Prys Roberts-Williams, Brynrefail.

Dymuna Rhian a Kelvin gydnabod yn ddiolchgar garedigrwydd y teulu, ffrindiau a chymdogion ac yn arbennig y morynion, Chloe Williams, Seren Jones a Mali Efa, y gwas priodas, Richard Williams, y macwyon, Cian Williams a Gareth Jones a'r ystlyswr, Kyle Williams.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Fictoria yn Llanberis.

Ysgol Sul Bosra Hyfryd oedd croesawu yr aelodau ffyddlon ynghyd ag aelodau newydd i'r Ysgol Sul fore Sul, Medi 8fed. Balch oedd pawb o weld Mr Jones yno i gadw trefn a diolchir i Caryl, Bethan a Rhian am wirfoddoli i helpu Mr Jones ac Anti Liz. Anfonwyd cofion at Anti Ann gan ddymuno adferiad buan wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Llongyferchir Anti Liz ac Eric ar ddod yn nain a thaid balch i Noa Jac, mab bychan i Sioned a Tirion a brawd bach i Efan Jac. Pob dymuniad da hefyd i Liz ac Eric ar achlysur eu Priodas Ruddem ar Hydref 14eg – dau achlysur hapus dros ben.

Rydym bob amser yn falch o groesawu Andrew Settatee o gynllun EFE atom a diolch iddo am ei wasanaeth clodwiw i'r ysgol Sul.

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvon.co.uk • Gwefan: www.arvon.co.uk

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd

The national network of mental health charities
Supporting voluntary and community groups

European Regional Development Fund

Welsh Community Voluntary Association

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Parhad PENISARWAUN

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr lwcus oedd Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt a Dafydd Williams, Meini Gleision, Brynrefail.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â theulu'r ddiweddar Rowena Williams, Llwyn Wern – cyn ofalwr yn Ysgol Tan y Coed (gynt). Dymunir ymddeoliad hapus i Gwenda a fu'n ofalwr yn yr Ysgol Gymuned am flynyddoedd a diolchir iddi am ei chydweithrediad parod. Croesewir Huw Trefor o Lanrug fel y gofalwr presennol gan obeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

Llongyfarchwyd holl ieuenctid y pentref a'r fro a fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Llongyferchir Lois a Seindorf Arian Deiniolen a Magi Tudur ar eu campweithiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Diolchir i Huw a Brenda Davies, Tyddyn Hendre, am eu rhodd hael i Gronfa Rheoli'r Neuadd. Y mae catalog Webb Ivory ar ei hynt o gwmpas gan aelodau'r Pwyllgor gyda'r elw yn mynd at y Neuadd – disgwylir y catalog yn ôl i Phyllis erbyn Tachwedd 1af os gwelwch yn dda.

Ar Hydref 17eg cynhelir Bingo gyda naws Calan Gaeaf yn y Neuadd Gymuned am 6.30 gyda Anti Jean yn Alwr profiadol. Mynediad £1 i oedolion a 50c i blant. Bydd paned, diod a bisgedi a raffl ar gael ar y noson. Croeso cynnes i bawb.

Edrychir ymlaen am gynnal 'P'nawn Wasael' ym mis Rhagfyr yn y Neuadd Gymuned gyda chyfle i rieni, perthnasau a phentrefwyr ymuno i ganu'r Hen Garolau a chyfle i gael pwnsh, paned a mins pei. Bydd manylion llawn yn y rhifyn nesaf.



Mair Roberts

Glasgoed

9fed Ionawr 1940 – 31ain Awst 2013

Un o'r Carneddi, Bethesda, ydoedd Mair Roberts, yn un o dair merch a thri mab y diweddar Mary ac Edwin Bullock. Ar y 24ain dydd o fis Hydref y flwyddyn 1964, 'adag Fair Borth', priododd Mair Bullock wr ifanc o'r enw Derrick Nigel Roberts (hen deulu Glan 'rafon, Llanrug) a buont fyw yn Nôl Helyg, ger Cwm y Glo, wedyn yn hen dŷ'r Glasgoed, cyn symud i'r Bwthyn, sy'n yr un fangre.

Cymeriad annwyl ydoedd Mair Roberts, hefo cryn sioncrwydd yn perthyn iddi. Byddai bob amser yn gwneud ei gorau dros eraill. Roedd yn fam ofalus i Linda a Martin, yn nain llawn gofal o'i wyresau, sef Rhiannon a Rebecca Elin, merched Louise a Martin. Yn ddi-os, roedd yn gogyddes penigamp, yn wraig tŷ tu hwnt o ddiwyd, a phopeth a wnâi mor hynod daclus, ac roedd hi wrth ei bodd yn cael gwau ar gyfer hwn, hon ac arall. Yn ei hamser hamdden carai fynd am dro ym modur ei gŵr, a byddai ar ben ei digon yn ymweld â siopau edafedd, esgidiau neu ddillad.

Cydymdeimlir â Derrick, Linda a Guto, Martin a Louise a'r plant, a hefyd Vera (ei chwaer), Keith (mab yng nghyfraith) a'r teuluoedd ym Methesda, Llanrug, mannau ym Môn a Dyfnaint, Lloegr.

Bu ei chynhebrwng yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, fore dydd Iau, Medi'r Sed, pryd y gwasanaethwyd yno, a hefyd ar lan y bedd, gan y Parch Deiniol Prys, priod Mary, cyfnither yr ymadawedig. Gwnaed casgliad tuag at Dŷ Gobaith.

Y trefnwr angladdau ydoedd Dylan Griffith, Penisarwaun.

Diolchir i bawb yn ogystal am eu gofal o Mair yn ystod ei gwaeledd.

Cofio gynhesrwydd gwenau'n eu llawnder

Cofio mwynder llais a droes yn sibrydion;

Y cofio sy'n gymaint rhan o'r atgofion,

Cofio, cofio, cofio, a thrwy'r cyfan oll

Cofio dycnwch ei brwydr a'i dewrder.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwyd**



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cynylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD



Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
Cyf

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

YSGOL WAUNFAWR



Plant Newydd a Staff Rydym yn dymuno'n dda i'n cyn ddisgyblion sydd wedi dechrau yn ysgol uwchradd Brynrefail, ac estynnwn groeso arbennig i'r 18 o blant newydd y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da iawn. Estynnwn groeso cynnes hefyd i Fiona ym mlwyddyn derbyn, Joseff a Noa ym mlwyddyn 1 ag Ava i flwyddyn 2.

Gwersi Nofio a Thenis Mae plant Blwyddyn 2, 3, 4 a 6 wedi cychwyn ar eu gwersi nofio tra bod plant blwyddyn 5 yn cael gwersi tenis sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar bnawn ddydd Mawrth yng Nghaernarfon.

Etholiadau Etholwyd y canlynol o flwyddyn 5 a 6 yn gapteiniaid ac yn is- gapteiniaid i'r timau:

Capteiniaid Eilio = Sion Ifan ag Beca Elan;

Is- gapteiniaid = Iolo Morris, Celine Griffiths a Lili Griffiths.

Capteiniaid Cwellyn = Meilir Parry ag Ela Alcock;

Is- gapteiniaid = Morgan Anderson, Gwion Roberts, Beca Haf a Poppy Burns.

Capteiniaid Gwyrfaï = Iwan Llwyd ag Emily Owen;

Is- gapteiniaid = Dylan Williams, Cai Griffiths, Nathan McLeod, Alina Wroe ag Efa Medi.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Mrs Sioned Parry a fydd yn derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yr wythnos nesaf. Bydd Miss Heddus Gwynedd, sef cyn ddisgybl o'r ysgol, yn gyfrifol am y dosbarth dros y chwe wythnos nesaf. Gobeithio y bydd hithau yn hapus yn ein plith.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Gorffennaf oedd £30: Mr a Mrs Steve Jones, Ty'n Cae; £20: Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart.

Mis Awst: £30: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn; £20: Mr Peter Greasley, 7 Pant y Waen; £10: Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Eglwys y Waun ar Fedi Sed. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r haf. Cyfeiriodd at farwolaeth Betty Griffith, oedd wedi bod

yn aelod ffyddlon a gweithgar ers blyneddau. Fel arwydd o barch a choffadwriaeth am Betty, fe safodd yr aelodau am funud.

Y wraig wadd am y prynhawn oedd Susan Peters o Gaernarfon. Cafwyd arddangosiad ganddi o sut i osod blodau. Gwnaeth hyn mewn ffordd hwyliog iawn a'r aelodau wedi ei mwynhau yn fawr. Diolchodd y Llywydd iddi. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Rosie, gan Catherine. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 3ydd pryd y bydd Barbara Dixon o Sir Fôn yn siarad am ei phrofiad fel deintydd yn Cambodia. Croeso i aelodau newydd.

Clwb Bowlio Cynhaliwyd cystadlaethau mewnol y Clwb a 15 Awst yn y Ganolfan a'r enillwyr oedd:

Tarian er cof am T.A. Thomas: 1. Mal Burns, 2. Ruan Burns.

Cwpan y Capten: 1. Idris Evans; 2. Brian Hill.

Cwpan y Merched (rhoddedig gan Garej Pant y Waun): 1. Pearl Williams; 2. Wenna Edwards.

Cwpan Dwbl (rhoddedig gan Garej Gwalia): 1. Pearl ac Emyr; 2. Idris a Catherine.

Mae'r Clwb yn cyfarfod bob pnawn a nos Fawrth o 2 o'r gloch tan 4 ac o 7 o'r gloch tan 9, a phob dydd Iau, yr un amseroedd.

Beth am ymuno â'r Clwb. Mae'n ffordd dda o ymarfer a chymdeithasu. Mae croeso i aelodau o unrhyw ardal yn ogystal â Waunfawr i ymuno. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Valmai Williams, yr ysgrifennydd, ar 07919093877.

YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

Gwynant Pierce

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH GARDDIO OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Neges Bwysig Eisteddfod Bentref Waunfawr. Yn anffodus bydd rhaid gohirio Eisteddfod Bentref Waunfawr tan y 15fed o Chwefror. Cadwch y dyddiad yn glir!

Cywirow Hoffwn gywiro enw merch fach Catrin ac Osian Gwynedd, Nant i Meri Huws ac nid Mari Huws fel yr oedd yn rhifyn Medi o'r Eco. Diolch.

Dathlu Priodas Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ann a Dean Clark, Stad Pant y Waun, a fu'n dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Genedigaethau Llongyfarchiadau i Carys ac Edgar Owen, Glyn Awel, ar ddod yn nain a thaid i wyres fach newydd. Ganwyd Neli i'w merch, Gwenno ac Iwan Rhys yn Llanrug. Chwaer fach i Now Ifan a gor-wyres i Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen.

Llongyfarchiadau i Gavin a Steph, Stad Bro Waun, ar enedigaeth merch fach, Kelsey, chwaer i Kayla ac wyres i Sylvia

Thomson.

Pen-Blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Carwyn Lowe, Ger y Ffynnon, a fu'n dathlu cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis. Dymuniadau gorau ti i'r dyfodol, Carwyn.

Diolch Dymuna Gwyn ac Emma, Cyrnant, ddiolch am yr anrhegion a'r dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr iawn.

Dymuno'n Dda Dymunwn bob hapusrwydd ac anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Winnie Evans sydd wedi mynd i aros i Gartref Preswyl y Foelas am gyfnod.

Adrefo'r Ysbyty Croeso adref o'r ysbyty a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Mae'n dda clywed fod Mrs Llywela Davies, Stad Tref Eilian wedi cael dod adref o Ysbyty Walton Lerpwl ble y cafodd lawdriniaeth, a'i bod yn gwella a chryfhau.

Cymerwyd Manon Williams, Stad Ael y Bryn i Ysbyty Walton

Lerpwl hefyd ble y bu'n cael profion.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mr Ifan Pritchard, Stad Croes y Waun.

Hyderwn eich bod i gyd yn gwella'n ddyddiol ar ôl dod adref i gwmni eich teuluoedd a'ch ffrindiau.

Dymunwn wellhad buan i Trefor Beech, Bron Allt wedi iddo anafu ei law mewn damwain.

Mae tri â chysylltiad â'r pentref wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau

am wellhad buan at Nyrs Carol a Nyrs Iona, y ddwy yn gweini arnom yn syrjyri Liverpool House. Ac at Mr Robert ap Wyn Williams, sy'n un o flaenoriaid Eglwys y Waun.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld i gyd yn ôl yma yn ein mysg.

Diolch. Dymuna Rhiana Bryn, Gorffwysfa a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam, nain a nain hen annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Waunfawr.

CLEIFION MEDDYGFA WAUNFAWR

Gwahoddiad i glinig imiweiddio.

Bore Sadwrn, Hydref 5ed, 9am–1pm ym Meddygfa Waunfawr, Waunfawr.

- Brechiad fflw blynyddol i bawb dros 65 oed, y cleifion sydd o dan risg a'r merched beichiog.
- Imiweiddiad fflw i blant (drwy chwistrell trwyn).
I blant oedd yn 2 neu 3 oed ar y cyntaf o Fedi 2013 (dyddiad geni 2/9/2009 - 1/9/2011)
- Brechiad Eryr (shingles) dim ond i oedolion 70 oed (dyddiad geni 2/9/1942 - 1/9/1943)
a 79 o (dyddiad geni 2/9/1933 - 1/9/1934)

DIM ANGEN APWYNTIAD!



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrrwyr dros **21 oed!**



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

MOTION & EMOTION



PEUGEOT

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251

www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffordd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garaj neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4–34.9 (3.6–8.1), Extra Urban 88.2–62.8 (3.2–4.5), Combined 83.0–48.7 (3.4–5.8) a CO2 87–135

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanrug

Cynhaliwyd cyfarfod ar 16eg o Orffennaf a gwnaed y penderfyniadau canlynol.

- Cysylltu gyda theulu ynglyn a charreg bedd sydd yn anwastad yn y fynwent, a rhoi copiau o reolau'r fynwent i'r ymgymerwyr a gofyn iddynt roi copi i bob teulu pan yn trefnu angladd.
- Gofyn i Warden Cwn y Sir ddod i'r ardal yn ystod gwyliau'r Haf er mwyn asesu'r sefyllfa baw cwn sydd yn dal yn broblem.
- Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
- Mynedfa newydd a man parcio/troi – tir tu cefn i Dai Hermon, Llanrug
- Codi 2 dŷ a modurdai ynghyd â mynedfa cysylltiedig, tir Parc Uchaf, Llanrug (ond am wneud y sylw pa mor bwysig fyddai gosod palmant yn yr ardal wedyn gan fod cymaint o blant yn cerdded ar hyd y ffordd yno i'r ysgolion.)
- Derbyn pris o £1,155 i drwsio giatiau'r fynwent a cheisio cael gwneud y gwaith cyn gynted a phosib.
- Gofyn wrth y teulu am ganiatâd i staenio'r fainc goffa yn y fynwent.
- Talu i fyny i £150 tuag at dori gwair yn yr hen fynwent.
- Pasio'r gwŷn fod rhywun wedi llifio mainc ger tai Glanmoelyn ymlaen i Gyngor Gwynedd.
- Ceisio cael grantiau tuag at gost adeiladu Parc Sglefrio yn Llanrug.
- Pasio'r gwyn fod coed yn tyfo'n beryglys i'r ffordd ger Bryn ymlaen i Gyngor Gwynedd.

Y FACHWEN

Llongyfarchiadau i dri a anrhydeddwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni – a'u gwreiddiau yn ddwfn ym mro'r "Eco", sef ardal y Fachwen:

Alwyn Owens, Porthaethwy yn derbyn y Fedal Wyddoniaeth. Roedd ei fam yn enedigol o Ty'n Pwll.

Ifor ap Glyn, Caernarfon yn ennill y Goron. Roedd ei nain yntau yn enedigol o Ty'n Pwll.

Robat Arwyn, Rhuthun a fu'n gyfrifol am drefnu'r Cyngerdd Agoriadol "Caneuon Robat Arwyn". Roedd ei fam yn enedigol o Cae Canol.

Mae'r tri yn berthnasau agos.


(Nid yn aml y daw newyddion o'r Fachwen. Chwiliwch hen rifynnau o'r "Eco" i weld pryd oedd y tro diwethaf. Gyda diolch i Enid Jones, Talysarn am anfon y wybodaeth hon i ni am gysylltiadau'r ardal efo digwyddiadau yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn gynharach eleni. Gyda llaw, un o'r Fachwen yw hithau hefyd, a dioch iddi am ei chefnogaeth. Golygydd).

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271



Alun Fred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunfred.jones@cymru.gov.uk

Cist Gymunedol

Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianelidobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:

01286 870682

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Diwrnod Pwysig: Diwrnod Difyr

Pa mor gyfarwydd ydych chi â hanes Cymru? Efallai eich bod wedi clywed chwedlau am gi Llywelyn, neu am y brenin Arthur, yn yr ysgol, ond faint ohonoch fuasai'n gallu nodi ffeithiau caled ein hanes, rhoi prif ddiwyddiadau Cymru mewn llinell amser neu enwi cyfnodau'n hyderus? Fawr neb, mae'n debyg, oherwydd nid yw dysgu am hanes Cymru wedi bod yn rhan o gwricwlwm hanes ysgolion yn y gorffennol. (Mae ymgyrch ar y gweill i newid hyn a'r gobaith yw y bydd plant y dyfodol yn gwybod ein hanes.)

Ond, peidiwch â digalonni, mae 'na gyfle gwyhychi chi! Dewch i Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynog Fawr, i glywed stori hanes Cymru 'ar wib'. Mewn deuddeg o sgysiau difyr gyda siaradwyr gwybodus a huawdl olrheindir hanes ein gwlad o'i ddechreuadau hyd y ganrif hon – a hynny mewn chwe awr! Cewch ein gwir hanes, stori Cymru i Gymry gan Gymry, nid 1066 and all that. (Nid yw'r dyddiad hwnnw o bwys i Gymru, gyda llaw).

Y dyddiad yw dydd Sadwrn, Hydref 19eg, o 10 y bore tan 4 y pnawn. Darperir panad ond bydd angen i chi ddod â bwyd amser cinio. Mae'r diwrnod yn ddi-dâl.

Cysylltwch trwy e-bost neu ffôn am ragor o fanylion ac i gofrestru: hanes.uwchgwyrfai@gmail.com 01286 660 853/546
Dewch, da chi, er mwyn nabod ein Cymru'n well. Wedi'r cyfan, cof cenedl yw ei hanes, ac anghofio yw bradychu.

Diolchgarwch am y Cynhaeaf.

Mae'n draddodiad yn ystod y mis sydd i ddod i gynnal gwasanaethau diolchgarwch. A fydddech – yn eglwys, capel neu ysgol – yn ystyried cyfrannu cynnyrch eich gwasanaeth eleni i helpu eraill? Beth am gyfrannu i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon? Gallwch gysylltu a ni ar FoodbankCaernarfon@BancBwyd. Diolch ymlaen llaw am bob cyfraniad.

Y Murlun

Mae ôl dwylo'r hen blant, a'u cyffro'n drwm drwyddo'n ffres. Mae trenau enwog y fro, cigfrain, defaid, torgoch unigryw'r cwm - clawdd pilars, Cilfach Ddu'n cynhyrfu'r co...

Yn amlwg mae ynddo law artist hŷn fu'n cynnal holl chwilfrydedd heintus plant; mae'r eangderau – a'r mynydd-dir sy'n rhoi i'r cyfanwaith lleol hwn – ei slant. Fry uwchben gan ddilyn 'amlinell lom' Yr Wyddfa a'i chriw hyd y moelydd maith, rhan o gerdd bardd yr etifeddiaeth drom un roes i'n llên a'n barddas – fro y graith...

y cof am roddwr lliw y wawr a'r hwyr a'r siars rhag ango cur Ei Groes yn llwyr.

Norman Closs

Un funud fach ...

MORGAN CHASE

Waeth i mi heb â smalio; does gen i mo'r syniad lleiaf beth yw £572miliwn. Dyna faint y dirwyon a roddwyd i Fanc J P Morgan Chase yn ddiweddar am fisdimanars ariannol a gyflawnwyd gan y banc Americanaidd hwn y llynedd. Ond plis, plis peidiwch â disgwyl i mi egluro beth yn union a wnaeth masnachwyr y banc o'i le! Y cwbl a wn i ydi bod y dirwyon eithafol yn arwydd o'r risg annerbyniol - ac o bosibl y gweithredu anghyfreithlon - a barodd i'r masnachwyr hyn beri colledion enfawr i'r banc. Y peth gwirioneddol frawychus wrth gwrs yw bod hyn wedi digwydd pan oedd y banciau i fod wedi dysgu gwersi a dechrau gweithredu mewn ffyrdd mwy cyfrifol yn dilyn argyfwng ariannol mawr y blynyddoedd diwethaf.

Ac fel petasai'r dirwyon hyn ddim yn ddigon, rhoddwyd dirwy arall o £190miliwn i'r banc am gamymddwyn ynghylch cardiau credyd. Mae hynny'n haws i'w egluro. Roedd y banc yn codi tâl misol ar filoedd lawer o gwsmeriaid i'w gwarchod rhag twyll a dwyn hunaniaeth (identity theft). Ond doedd y banc yn gwneud dim o gwbl i haeddu'r pres hwnnw! Doedd dim gwarchod o fath yn y byd i'w gael. Roedd peth felly cystal â lladrata, a does ryfedd bod dirwy mor drom wedi ei gosod.

Ond pamsôn am Morgan Chase? Bethsydd a wnelo camymddwyn un o fanciau mwya'r byd â ni? Onid yw'r helynt yn atgoffa pawb ohonom o'r angen am onestrwydd ym mhopeth a wnawn? Gall unigolion fod yr un mor euog o dwyll trwy hawlio tâl am waith na chyflawnwyd neu dreuliau am siwrnai na wnaed. Oes beryg ein bod hyd yn oed yn ceisio twyllo Duw trwy ddisgwyl gwobr a chlod am gadw ei orchmynion, a ninnau ymhell iawn o fod wedi gwneud hynny?

Ac onid yw helynt Morgan Chase yn ein hatgoffa hefyd o'r angen i ni ddysgu o'n camgymeriadau ac ymdrechu hyd eithaf ein gallu i beidio â chyflawni'r un beiau drosodd a throsodd? Mae'n wir fod yr emynydd yn ceisio maddeuant am 'syर्थio ganwaith i'r un bai' ond ddylai hynny ddim gwneud i'r un ohonom fodloni ar wneud yr un camgymeriadau a chyflawni'r un pechodau dro ar ôl tro. Mae beiau ddoe, a sicrwydd maddeuant Duw amdanynt, yn gwneud i bobl Dduw ddeisyfu peidio â phechu wedyn heddiw ac yfory.

Ac wrth gloi, mentraf awgrymu y gallai Morgan Chasten fod yn rheitiach enw ar y banc erbyn hyn.

JOHN PRITCHARD

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG: 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon
• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn
Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

Chwaraeon

Dal i redeg.

Mae'r tymor rhedeg mynydd yn tynnu tua'r terfyn, a'r rasys diweddaraf yn digwydd dros gyfnod paratoi'r rhifyn hwn o'r "Eco". Daeth bron i ddau gant o redwyr i gystadlu yn Ras Pedol Peris, sef cymal olaf Pencampwriaeth Prydain. Doedd neb lleol yn ymgiprys am y prif wobrau, ond cafwyd tywydd ffafriol a chlod i'r trefnwyr.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd pencampwriaeth rhedeg mynydd ieuencid gogledd Cymru wedi ei chynnal ar y Gogarth. Mae siawns y daw gwobrau i'r fro: mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf.

Ddiwedd y mis, bydd dros fil o redwyr yn ymgynnull yn Llanberis i gystadlu yn Rasys Cyfnewid ar Fynydd - Pencampwriaeth Prydain. Clwb Rhedwyr Eryri sy'n gyfrifol am y gystadleuaeth eleni (am y trydydd tro yn eu hanes), a bydd pencadlys y ras ar safle Glynrhonwy, gyda chaniatad Cyngor Gwynedd. Mae 170 o dimau eisoes wedi cofrestru (chwech aelod i bob tim), a bydd y ras gyntaf yn dringo i Gefn Du. Mae'r ail a'r bedwerydd yn dringo Moel Eilio a Moel Cynghorion, ond dim ond nifer fechan iawn sy'n ymwybodol o'r trydydd cymal, sef cwrs cyfeiriannu, rywle ar yr ucheldir rhwng Cefn Du a Moel Cynghorion. Dim ond ar gychwyn y cymal hwn y caiff rhedwyr fap i ddangos eu cwrs. Mae'r cystadlu yn debygol o barhau drwy'r dydd, ac os am wyllo'r digwyddiadau, yna gellir gweld y cychwyn a'r gorffen ar Lon Clegir dydd Sul 20fed o Hydref.

Mae'r rhedwyr ffordd wedi cael tymor llwyddiannus. Daeth Alun Vaughan yn drydydd yn hanner marathon Llyn Fyrnwy yn ystod y mis. Bydd ras y Pedwar Llyn (Nantlle, Dywarchen, Gadair, Cwellyn) o amgylch Mynydd Mawr wedi ei chynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Mae llawer o redwyr lleol yn defnyddio'r ras hon fel paratoad ar gyfer marathon Eryri sydd i'w chynnal ddiwedd y mis; ras fydd yn denu miloedd eraill o athletwyr i'r ardal.

Ac y mae'r tymor traws gwlad yn cychwyn hefyd, gyda'r ras gyntaf yn cael ei chynnal ar gaeau Treborth, Bangor ac yn cael ei dilyn yn Llandudno.

Gwybodaeth am y canlyniadau hyn i gyd yn rhifyn Tachwedd.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**



**SYNUD
A CHADW**
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Marathon ERYRI - Cefnogi Clwb Peldroed Llanberis

Wrth i lawer iawn o redwyr ymweld a Llanberis fis Hydref ar gyfer Marathon Eryri, bydd Clwb Peldroed Llanberis yn cicio gwynt and yn dangos eu dillad newydd. Mae'r clwb wedi bod yn lwcus iawn yn derbyn nawdd am y 2 flynedd nesaf gan Marathon Eryri, wrth iddynt archebu Tracksuits i dri tim y clwb. Bydd pawb yn edrych yn dda yn yr un steil dillad a logo y ras ar eu cefnau.

Un o amcanion Marathon Eryri yw rhoi cyfraniadau sylweddol yn ol i'r gymuned bob blwyddyn. Y llynedd rhannwyd dros £14,000 i'r cymunedau, y pentrefi, a gwahanol grwpiau a sefydliadau sy'n ymylu ar gwrs y ras. Gallwch ddilyn Clwb Peldroed Llanberis ar facebook, twitter, neu pitchhero <http://www.pitchero.com/clubs/clwbpeldroedllanberis/>

Os hoffech fod yn rhan o'r pwyllgor neu yn gallu rhoi eich amser am awr neu ddwy ar brynawn Sadwrn i helpu yn y cae gyda gemau cartref, croeso i chi gysylltu gyda

Eurwyn Thomas - tomoseur@tiscali.co.uk , Urien Sion Huws - uriensionhuws@googlemail.com neu Christine Saynor - the.saynors@virgin.net

LLEINIAU LLWYDDIANUS

Erbyn i chwi ddarllen hyn bydd Morgannwg wedi herio Swydd Nottingham yn rownd derfynol Cwpan 40 pelawd ar faes Tomos Lord. Bydd hyn yn un fflach o oleuni mewn tymor a addawodd llawer iawn mwy, gyda chwarae gwael yn arwain at siomedigaeth yn y 20/20.

Yma yn y gogledd cafwyd tymor arbennig yn yr haf ddelfrydol. Tywydd braf a'r troellwyr wrth eu boddau wedi llifogydd y llynedd. Ers deg mlynedd bellach bu cryn fuddsoddi mewn hyfforddiant safonol. Mae'n ofynnol bellach i glybiau gynnal timau ieuencid o 9 oed hyd at 15 oed. Y gobaith wedyn yw bod llif naturiol o'r oedran yma i griced oedran hyn. Daw hyn o dan oruchwyliaeth Rhanbarth Eryri, sef tiriogaeth siroedd Môn, Gwynedd a Chonwy. Braf cyhoeddi elenni am lwyddiant ysgubol y rhanbarth. Ar lefel ieuencid llwyddodd tair oedran Eryri gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan Cymru gan drechu siroedd poblog y De yn aml.

Mae'r record yng Nghyngrair y Gogledd yn syfrdanol. Yn y chwe adran mae pum pencampwr yn dod o Eryri. Mae tri arall yn yr ail safle ac felly yn esgyn. Yn y brif adran y tymor nesaf bydd chwe tim - union hanner - yn dod o Eryri. O gofio mantais aruthrol poblogaeth y 'dwyrain' mae hyn yn syfrdanol. Dim ond un tim o sir boblog Wrecsam fydd yn yr uwch gynghrair.

Dyma'r amser felly i unrhyw blentyn o oed 7 ymlaen i ymuno a'u clybiau lleol. Rwyn ymwybodol bod sawl plentyn a diddordeb yma ym Mro'r Eco. Eisies mae nifer o ddisgyblion lleol yn ymwybodol o chwaraewyr tramor sydd yn ymweld a'u hysgolion i hyfforddi. Os am unrhyw fanylion sut i ymuno a chlwb cysylltwch a mi. Bydd rhai clybiau yn cynnal nosweithiau hyfforddi, a chystadleuaeth dan-do yn ystod y gaeaf. Dyma'r cyfle.

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

Chwaraeon

BETH AM FENTRO?

Nid yw oedran yn rhwystr i gymeryd rhan mewn chwaraeon. Mae'n rhedwyr lleol yn profi hynny yn wythnosol. Mae dau glwb lleol yn estyn gwahoddiad i aelodau newydd – yn ddechreuwr neu brofiadol i ymuno.

Draw yn y Waunfawr mae'r Clwb Bowlïo Mat Byr wedi hen ennill ei blwyf. Mae gwahoddiad i chwi ymuno yn yr ymerferiadau wythnosol ar ddydd Marth a Dydd Iau am 2pm. a 7Pm. Darperir pob cyfarpar, a cewch gwmni rhadlon.

Mae Clwb Hoci Caernarfon hefyd yn estyn gwahoddiad. Ar faes pob tywydd Ysgol Brynrefail maent hwy yn ymarfer ar nos Fercher. Bydd yr oedran Ysgol Bl.5-9 yn cyfarfod o 6.30 – 7.30pm a'r oeddrannau o Fl. 10 ymlaen i'r oed hyn o 7.30-8.30pm.

Cofiwch hefyd am glwb Pêl-Rwyd Llanrug. Amdani,felly!

Y CWPAN YN DENU

Gyda'r tymor pêl-droed lleol yn egino mae'n argoeli yn dda ar Eithin Duon. Mae'r cochion yn gyffyrddus ymysg y ceffylau blaen yn y gynghrair er bod argoelion fod Dinbych a'u record di-guro yn gosod tipyn o safon. Gydag ond dwy gôl wedi eu ildio mewn saith gêm mae sylfaen amddiffynol gadarn i'w weld gan Lanrug. Sgorio digon ond ildio mwy sy'n cloriannu cychwyn Llanberis. Dim ond dwy fuddigoliaeth gynghreiriol, ond dim lle i boeni ar hyn o bryd.

Er yn gynnar mae'r frwydr wedi cychwyn am Gwpan Cymru. Gwynedd v Clwyd oedd hi ac i Lanrug a Llanberis daeth y buddigoliaethau. Dau o geffylau blaen cynghrair Clwyd ddaeth i'w herio ond danfonwyd Penarlâg a Llanelwy yn ôl dros Afon Conwy yn benisel. O gofio fod arian i'w gael am gyrraedd pob rownd, gallasai hon fod yn gwpan fanteisiol.A 'local darbi' arall efallai?

Mwy o'r "Tour of Britain"...



Robin o Lanrug gyda Nigel Mansell, noddwr tim beicio ieuenctid Prydain



Na, doedd hwn ddim yn y ras!



CLWB RYGBI CAERNARFON YN 40 OED

Âr tim cenedlaethol yn ysbrydoli, a rygbi yn gryf yn yr Ysgol Ramadeg daeth ysa i ffurfio clwb yn y Dre. Ar 6/11/ 1973 deorwyd y syniad gan griw brwdfrydig. Tyfu yn raddol ond dan syniadaeth bositif bu hanes y cyw, ac erbyn heddiw mae nyth gysurus yn cynnal teulu mawr o aelodau balch. Erys o hyd y cysylltiad agos rhwng yr Ysgol a'r clwb. Yn wir, gyda chefnogaeth aelodau'r clwb mae Ysgol Brynrefail hefyd yn 'bwydo' erbyn hyn. Yn yr un modd mae'r gêm a gwreiddiau cadarn yn y sector gynradd diolch i sesiynau hyfforddi ac ambell i gystadleuaeth nodedig.Yn wir, dau dymor yn ôl rygbi a lanwai tudalen gefn y Caernarfon and Denbigh yn rheolaidd. A oedd hyn yn symbyliad i'r clwb pêl-droed fod ar ei gwyliadwraeth? Erbyn hyn mae'r ddwy gêm – a chlybiau - yn llwyddianus.

Mae'r tim wedi symud o gae Syr Huw, dros yr Abar, ar clwb ar Lôn Sant Helen ymlaen I gyfleusterau da iawn ar y Morfa. Yn bwylllog, ac i bwrpas, y dysgodd y clwb i gerdded.Drwy'r amser rhoddwyd pwyslais ar feithrin ieuenctid.

Uchafbwynt y dathlu bydd cinio mawreddog yn y Celtic Royal. Am fanylion cysyllter ag Idwal Williams (01286 673485) neu'r wefan clwbrygbicaernarfon.co.uk.

Yna ar y 6ed. o Dachwedd bydd noson gymdeithasol 'anffurfiol' yn y clwb. Bydd cyfle i gyn-chwaraewyr hel atgofion.

Fel ein clwb rygbi mabwysiedig mae'n weddus mai un o'r Fro, Clive James – un o'r sefydlwyr- yw'r Cadeirydd eleni. Pob lwc iddo a'r clwb , ac fel yn y llun o Clive yn hyrddio i herio tim Benllech yn 1988, ymlaen a chyda cymorth eu gilydd bu polisi pendant y clwb.

LLONGYFARCHIADAU

Eleni mae rhaglen Sgorio yn dathlu ei phenblwydd yn 25 oed. Bu yn raglen safonol o'r cychwyn ac wedi adlewyrchu sawl agwedd o bêl-droed Cymru ac Ewrop. Bu yn un o raglenni mwyaf poblogaidd S4C. Bu'r datblygiad i ddangos gêm fyw o'r Gynghrair Genedlaetho bnawn Sadwrn hefyd yn ddatblygiad pwysig.Penblwydd Hapus. Gyda llaw, testun yr englyn yn Eisteddfod Deiniolen eleni yw 'Malcolm Allen.' Yr Orsedd ac englyn mewn un flwyddyn! Beth nesaf i 'ddewin y meic'?

76

grid

dylunio graffeg/graphic design

darlunio/illustration

animeiddio/animation

graffeg arddangos/display graphics

- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk

gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

DAU SYR A CAV.

Er fod nifer o enwau enwog y byd rasio beics yn cystadlu, dau syr – David Brailsford a Bradley Wiggins, a Mark Cavendish aeth a'r sylw. Wiggins yn cadw'r crys aur fel arweinydd y ras a Cavendish yn ennill y cymal gydag arddangosfa o sut i sbrintio am y llinell derfyn, a'r dorf yn bloeddio eu cymeradwyaeth. Ond David Brailsford, yr hogyn lleol oedd y ffefryn; yn crwydro o gwmpas ar ddiwedd y ras yn sgwrsio a thrafod, ac yn fwy na pharod i dynnu ei lun gyda phlant a chefnogwyr ifanc.

A braf gweld cymaint o blant ysgol a phobl ifanc yn mwynhau'r diwrnod (p'run a oeddent i fod yno a'i peidio!) ac o bosib yn ennyn eu diddordeb mewn camp sydd yn dod yn fwy-fwy poblogaidd.

Diolch i dim priffyrdd a digwyddiadau Gwynedd am gydlynnu'r holl ddiwrnod, ac i bawb arall a fu'n rhan o'r trefniadau i wneud y cyfan yn ddiwrnod i'w gofio.

Ond peidied a gadael i bopeth orffen gyda'r diwrnod bythgofiadwy hwn. Cofier mai dyffryn Peris yw'r unig ddyffryn yn Arfon sydd heb llwybr beicio yn ei gysylltu a threfi Caernarfon a Bangor. Mae'n hen bryd i deuluoedd ifanc, plant, pobl ifanc ac oedolion ein dyffryn ni gael llwybr beicio diogel. Gyda dyfalbarhad ac ewyllys, byddai sicrhau llwybr o'r fath yn gymynrodd werthfawr i genedlaethau'r dyfodol.

“DOD ADRA’N ÔL”

Dyna ddisgrifiad Syr David Brailsford o'r diwrnod rhyfeddol. Gwelodd Syr Bradley Wiggins yn dal gafael yn y crys aur. Gwelodd Mark Cavendish yn ennill y cymal. Bradley yn reidio i'r tim y mae'n rheolwr arno a Cavendish yn gyn-aelod o'r tim.

Ond nid Syr David oedd yn crwydro strydoedd Llanberis yn aros i gael tynnu ei lun ac yn sgwrsio efo hwn a'r llall, ond Dave, y bachgen ifanc a fu'n chwarae peldroed i dimau lleol cyn i anaf i'w benglin ei orfodi i droi cefn ar y bel gron a throï at feicio. Ac y mae'r daith feicio hanesyddol honno'n parhau iddo...

Tra'n ymweld a'i fam, Barbara, ym Mhenisarwaun, eglurodd mai “dyma'r lle rwy'n gallu teimlo'n hollol gartrefol ynddo a chael bod yn fi fy hun. Fan hyn ydi adra.”

(Gyda diolch i bawb am anfon cymaint o wahanol luniau o'r digwyddiad. Nid oedd yn bosibl eu cynnwys i gyd. Golygydd.)

